Dadansoddi ar gyfer Polisi

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

GSR

Government Social Research

Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 18/2022

DYDDIAD CYHOEDDI: 09/03/2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Ailgysylltu Croeso Cymru 2021

ISBN Digidol **978-1-80391-778-8**

© Hawlfraint y Goron

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Arolwg Ymchwil Llawn: Adroddiad Troi Ymholiadau yn Ymweliadau.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 18/2022.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/arolwg-ailgysylltu-croeso-cymru-2021

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru
Grŵp Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost : ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC

# Cefndir a Methodoleg



# Cefndir

Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru sy'n gyfrifol am gynnal ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaeth.

Mae hwn yn adroddiad manwl sy'n deillio o arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2022 ymhlith cysylltiadau defnyddwyr Croeso Cymru (cyfeirir atynt fel 'ymholwyr' drwy gydol yr adroddiad). Diffinnir cysylltiadau defnyddwyr fel pobl a ymgysylltodd â Croeso Cymru neu gyfathrebiadau partner, ac a roddodd eu manylion cyswllt i Croeso Cymru rhwng 2019 a 2021. Yr amcanion ymchwil penodol oedd gwerthuso :

**Tripiau a gymerwyd yn 2021**

- Cyfran yr ymholwyr a ymwelodd â Chymru yn 2021 am wyliau byr neu wyliau
- Nodweddion teithiau a gymerwyd yng Nghymru a phroffil ymwelwyr sy'n cymryd gwyliau
- Y profiad cyffredinol yng Nghymru a sgoriau ar gyfer elfennau o dripiau

**Bwriadau tripiau ar gyfer 2022**

- Cyfran yr ymholwyr sy'n bwriadu mynd ar drip i Gymru yn 2022
- Nodweddion tripiau a ragwelir ar gyfer tripiau Cymru yn2022

**Effeithiolrwydd marchnata**

- Cofio ymgyrchoedd marchnata 'allfrig' Croeso Cymru ac addewid Addo
- Effaith ganfyddedig marchnata Croeso Cymru

**Ymddygiad a theimlad cyffredinol**

- Agweddau at gynaliadwyedd
- Effaith COVID-19 ar ymddygiad tripiau

# Methodoleg, sampl a chyfradd ymateb

**Methodoleg**

Cysylltodd Croeso Cymru ag ymholwyr drwy e-bost ym mis Ionawr 2022 a gofynnwyd iddynt gwblhau arolwg ar-lein 10-15 munud a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Anfonwyd gwahoddiadau atgoffa i'r rhai na wnaeth agor yr e-bost, a chynigiwyd cymhelliad raffl hefyd. Rhoddwyd 18 diwrnod i gyfranogwyr gwblhau'r arolwg – agorodd yr arolwg ar 19 Ionawr a daeth i ben ar 7 Chwefror.

**Sampl a chyfradd ymateb**

Deilliodd y sampl o nifer o wahanol ffynonellau (fel y nodir yn y tabl isod), sy'n adlewyrchu sut y buont mewn cysylltiad â Croeso Cymru. Cofrestrodd mwyafrif helaeth (75%) yr ymholwyr â chronfa ddata Croeso Cymru yn 2019.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r ffynonellau sampl a nifer y cysylltiadau sydd ar gael yn ôl ffynhonnell sampl ac ar lefel gyfan.

| Ffynhonnell y samplau | Meintiau samplau |
|---|---|
| Arolygon rhyng-gipio ar y wefan | 2,621 |
| Ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol | 188 |
| Gweithgarwch yn ymwneud ag ymgyrchoedd penodol | 25,989 |
| Arall (gan gynnwys ymgyrchoedd blaenorol ar y wefan, a thanysgrifwyr cylchlythyr Croeso Cymru) | 11,755 |
| **CYFANSWM Y SAMPL** | **40,553** |

O'r 40,553 o wahoddiadau a anfonwyd at ymholwyr, derbyniwyd 4,522 o ymatebion i'r arolwg wedi'u cwblhau, **gan gyflawni cyfradd ymateb gyffredinol o 10%.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ystyriaethau o ran y sampl/1

Mae'n bwysig nodi nad yw'r sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil hon yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU, nac o ymwelwyr â Chymru. Dim ond cyfran o ymwelwyr sydd â pherthynas bresennol â Croeso Cymru y mae'r canlyniadau'n eu cynrychioli. Dylid felly cadw'r ystyriaethau isod ynghylch y sampl mewn cof wrth ddarllen yr adroddiad :

1. **Perthynas â Chymru:** Ar y cyfan, bydd ymholwyr yn naturiol gynhesach tuag at Gymru a'i marchnata, ac mae ymgysylltu â chyfathrebiadau Croeso Cymru yn rhagofyniad i gymryd rhan yn yr arolwg.

2. **Gwneuthurwyr penderfyniadau nid partïon llawn o ymwelwyr** : Mae ymholwyr yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn 'drefnwyr gwyliau neu seibiant byr', ar ôl rhoi eu manylion ar y cam cynllunio ar gyfer trip. Gall hyn greu gogwyddau o ran proffil, felly mae'n bwysig nodi bod proffilio yn cyfeirio at ymholwyr nid y partïon ymwelwyr llawn

3. **Gogwydd daearyddol:** Er eu bod yn cyfrif am gyfran fawr o'r bobl sy'n cymryd tripiau dros nos yng Nghymru, dim ond lleiafrif (0.8%) o ymholwyr Croeso Cymru sy'n byw yng Nghymru. Mae'r canlyniadau felly'n gogwyddo at ymholwyr sy'n byw mewn mannau eraill yn y DU.

4. **Gogwydd o ran oedran a segmentau**: Mae gan y sampl hefyd ogwydd cryf tuag at grwpiau oedran hŷn a segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru. Mae gan y farchnad ehangach gydbwysedd mwy cyfartal.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ystyriaethau o ran y sampl/2

Mae'r tablau isod ac ar y dudalen nesaf yn dangos yr ystyriaethau hyn o ran y sampl, gan ddefnyddio'r ffynonellau data canlynol.

1. **Ymatebwyr ymchwil 2022**: Cyfrannau ymatebwyr o'r astudiaeth ymchwil hon
2. **Ymatebwyr ymchwil 2020**: Cyfrannau ymatebwyr o'r arolwg cyfatebol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020.
3. **Dadansoddiad o Farchnad Wyliau'r DU**: Dadansoddiad o farchnad tripiau dros nos y DU fel 2020 (cyn-bandemig) yn seiliedig ar arolwg cenedlaethol cynrychioliadol ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar wyliau

**Tabl 1. Perthynas â Chymru**

| Perthynas â Chymru | Ymatebwyr ymchwil 2022 (yr adroddiad hwn | Ymatebwyr ymchwil 2020 | Dadansoddiad o Farchnad Wyliau'r DU* |
|---|---|---|---|
| Byddaf yn aml yn cymryd gwyliau byr neu wyliau yno ac rwy'n bwriadu gwneud hynny eto o fewn y flwyddyn nesaf | 47% | 42% | 15% |
| Byddaf weithiau'n cymryd seibiannau byr neu wyliau yno ac rwy'n bwriadu gwneud hynny eto yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf | 31% | 29% | 14% |
| Rwyf wedi cymryd egwyl fer neu wyliau yno unwaith neu ddwywaith o'r blaen ac efallai y gwnaf hynny eto | 19% | 23% | 26% |
| Nid wyf erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr yno ond hoffwn wneud hynny | 3% | 6% | 20% |
| Rwyf wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau yno o'r blaen, ond nid wyf yn debygol o wneud hynny eto | 1% | <1% | 8% |
| Nid wyf erioed wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau yno ac nid wyf yn debygol o wneud hynny yn y dyfodol | <1% | <1% | 8% |
| Wn I ddim | <1% | <1% | 9% |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

* Mae dadansoddiad o'r farchnad yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ymhlith sampl cynrychioliadol cenedlaethol o gymerwyr tripiau y DU ym mis Ionawr 2020

# Ystyriaethau o ran y sampl/3

**Tabl 2. Proffil oedran**

| Proffil oedran | Ymatebwyr ymchwil 2022 (yr adroddiad hwn | Ymatebwyr ymchwil 2020 | Dadansoddiad o Farchnad Wyliau'r DU* |
|---|---|---|---|
| 16-34 | 3% | 7% | 26% |
| 35-54 | 26% | 35% | 41% |
| 55-64 | 33% | 31% | 9% |
| 65+ | 38% | 26% | 23% |

**Tabl 3. Proffil Segmentau Croeso Cymru**

| Proffil Segmentau Croeso Cymru | Ymatebwyr ymchwil 2022 (yr adroddiad hwn | Ymatebwyr ymchwil 2020 | Dadansoddiad o Farchnad Wyliau'r DU* |
|---|---|---|---|
| Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol | 36% | 30% | 6% |
| Cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant | 24% | 23% | 2% |
| Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu | 15% | 18% | 6% |
| Teuluoedd ar gyllideb | 7% | 11% | 14% |
| Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur | 4% | 6% | 6% |
| Pobl y mae eu plant wedi gadael cartref sy'n dymuno gwyliau cyfforddus, da | 5% | 4% | 20% |
| Pobl hŷn, llai cefnogi | 4% | 3% | 11% |
| Pobl iau, llai cefnog | 2% | 5% | 22% |
| Ifanc, haul, hwyl | 1% | 2% | 9% |

* Mae dadansoddiad o'r farchnad yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ymhlith sampl cynrychioliadol cenedlaethol o gymerwyr tripiau y DU ym mis Ionawr 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ystyriaethau o ran y Sampl/4

**Tabl 4. Rhanbarth tarddiad**

| Proffil rhanbarth preswylio | Ymatebwyr ymchwil 2022 (yr adroddiad hwn | Ymatebwyr ymchwil 2020 | Dadansoddiad o Farchnad Wyliau'r DU* |
|---|---|---|---|
| Gogledd Orllewin Lloegr | 17% | 16% | 11% |
| De Ddwyrain Lloegr | 15% | 16% | 14% |
| Gorllewin y Canolbarth | 15% | 14% | 9% |
| Llundain | 10% | 8% | 13% |
| De Orllewin Lloegr | 10% | 12% | 8% |
| Dwyrain y Canolbarth | 8% | 7% | 7% |
| Swydd Efrog ac Ardal Afon Humber | 7% | 6% | 8% |
| Dwyrain Lloegr | 7% | 7% | 9% |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 2% | 2% | 4% |
| Yr Alban | 4% | 3% | 8% |
| Cymru | 3% | 6% | 5% |
| Gogledd Iwerddon (GI) | 1% | 1% | 3% |
| Arall | 1% | 1% | 0% |

* Mae dadansoddiad o'r farchnad yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ymhlith sampl cynrychioliadol cenedlaethol o gymerwyr tripiau y DU ym mis Ionawr 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Trwy gydol yr adroddiad, rydym ni'n defnyddio nifer o ddiffiniadau. Er mwyn cyflwyno proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol::

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda plant yn y cartref
- **Annibynnnwyr hŷn:** 35-64 oed heb blant yn y cartref
- **Ymddeoledigion:** 65+ oed

Er mwyn hwyluso'r dadansoddi defnyddir y diffiniadau llety canlynol:

- **Gwesty/Motél/Tafarn**
- **Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy**
- **Llety rhent neu randy â gwasanaeth:** Fflat/rhandy gwyliau rhent, Cartref gwyliau rhent neu Randy â Gwasanaeth
- **Cartref preifat:** Ail gartref/timeshare neu gartref ffrind/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar Sylfaen fasnachol (e.e. Airbnb)
- **Carafán/Gwersylla/Glampio:** Carafán Deithiol neu Gerbyd Gwersylla/Cartref Modur neu Garafán Sefydlog neu Babell neu Glampio/Amgen
- **Llety arall:** Hostel neu fath arall o lety

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol



# Canfyddiadau Allweddol (1)

**Proffil Ymholwyr Croeso Cymru**

1. Mae bron pob un (97%) o ymholwyr Croeso Cymru wedi bod i Gymru am wyliau byr neu wyliau ar ryw adeg yn eu bywydau, gyda thua hanner (47%) 'yn aml yn cymryd gwyliau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto yn ystod y flwyddyn newydd', a 3 arall o bob 10 (31%) 'weithiau'n cymryd gwyliau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf'.
2. Mae ymholwyr Croeso Cymru yn dueddol o berthyn i gyfnodau bywyd 'hŷn' ac mae 'annibynwyr hŷn' yn cyfrif am bron i hanner (49%), ac ymholwyr 'oedran ymddeol' yn cyfrif am 2 o bob 5 (38%). Mae bron i hanner (47%) yn disgrifio eu statws cyflogaeth fel 'wedi ymddeol', gyda thraean (32%) mewn cyflogaeth amser llawn. Gan awgrymu incwm gwario uchel efallai, mae bron i hanner yr ymholwyr yn perthyn i raddau cymdeithasol AB.
3. Mae ymholwyr wedi'u gwasgaru ar draws y DU, ond mae tuedd amlwg tuag at ranbarthau sy'n gymharol agos at Gymru; Gogledd Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr sydd â'r gynrychiolaeth uchaf a'r trydydd uchaf. Cynrychiolaeth gymharol isel sydd gan drigolion Cymru, sydd efallai'n adlewyrchu eu cynefindra presennol â Chymru fel cyrchfan tripiau (a llai o angen i gofrestru i gael cyfathrebiadau Croeso Cymru).
4. Mae segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru yn cyfrif am bron i 9 o bob 10 o'r holl ymholwyr, gyda 'chyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' a 'chyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' yn cyfrif am 3 o bob 5. Mae segmentau teulu â blaenoriaeth ('teuluoedd ar gyllideb' ac 'theuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur') yn cyfrif am 1 o bob 9 o'r holl ymholwyr.

**Troi ymholiadau yn dripiau a nodweddion tripiau 2021**

1. Aeth hanner ymholwyr Croeso Cymru ar drip i Gymru yn 2021, gyda rhaniad cyfartal o tua thraean yr un yn cymryd gwyliau byr o 1-3 noson a gwyliau hirach o 4+ noson. Fe wnaeth ymgymerwyr tripiau i Gymru gymryd 3.2 trip i Gymru ar gyfartaledd, â gwyliau byr ychydig yn amlach. Er iddynt gymryd dros 3 thrip i Gymru ar gyfartaledd, dywedodd ymgymerwyr tripiau i Gymru eu bod wedi cymryd llai o dripiau i Gymru yn 2022 o ganlyniad i'r pandemig.
2. Mae nifer y tripiau a gymerir i Gymru yn gymharol gyson ar draws cyfnodau bywyd a segmentau blaenoriaeth ac eithrio'r rhai a oedd wedi ymddeol a 'chyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' a oedd yn llai tebygol o fod wedi gwneud hynny, a dyma'r unig grwpiau â chynrychiolaeth is ymhlith y rhai sy'n cymryd tripiau nag ymhlith yr holl ymholwyr. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau ymchwil a wnaed yn 2019 ac ymchwil arall a gynhaliwyd gan Croeso Cymru , sy'n dangos bod cydberthynas gref rhwng oedran hŷn a llai o hyder i deithio yn ystod y pandemig.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Canfyddiadau Allweddol (2)

3. Mae agosrwydd at Gymru yn cydberthyn yn gryf â'r tebygolrwydd o fod wedi mynd ar daith i Gymru; trigolion Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr, y Gogledd Orllewin a'r De Orllewin sydd fwyaf tebygol o fod wedi gwneud hynny – roedd ymholwyr o Orllewin y Canolbarth a Gogledd Orllewin Cymru yn mynegeio'n uwch na'u cyfran ymhlith yr holl ymholwyr.
4. Roedd ymgymerwyr tripiau i Gymru yn fwyaf tebygol o fod wedi cymryd eu trip i Gymru ym mis Medi, er bod gwahaniaeth sylweddol ar draws segmentau - roedd dros hanner pob 'segment teuluol' yn cymryd trip ym mis Awst, gyda 'segmentau nad ydynt yn deuluoedd' yn fwyaf tebygol o gymryd trip ym mis Medi.
5. 'Gwersylla neu garafán' oedd y math o lety oedd yn cael ei ffafrio gan y rhai a oedd yn cymryd tripiau yng Nghymru yn 2021 (dylanwadwyd ar hyn gan ymatebion 'fan gwersylla/cartref modur'), ac yna 'eiddo wedi'i rentu neu fflat â gwasanaeth' (dylanwadwyd ar hyn gan ymatebion 'tŷ/bwthyn ar rent').'). Ar draws segmentau roedd 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' yn fwy tebygol o fod wedi aros mewn gwesty nag unrhyw fath arall o lety, ac yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny nag unrhyw segment arall. Roedd 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yn fwy tebygol o fod wedi aros mewn 'eiddo wedi'i rentu neu randy â gwasanaeth'. 'Teuluoedd ar gyllideb' oedd fwyaf tebygol o fod wedi aros mewn llety 'gwersylla/carafán', a dylanwadwyd ar hyn gan ymatebion 'carafán sefydlog – nad ydych chi'n berchen arni'. Roedd 'cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' a 'phobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' hefyd yn fwyaf tebygol o fod wedi aros mewn llety 'gwersylla/carafán', ond dylanwadwyd ar hyn gan ymatebion tripiau 'fan gwersylla/cartref modur'.
6. I'r mwyafrif o'r ymgymerwyr tripiau i Gymru, roedd archebu llety ar gyfer eu taith yn 2021 naill ai'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd. Fodd bynnag, roedd hyn yn llai tebygol o fod yn wir ar gyfer y rhai a oedd yn dewis 'gwersylla neu garafán', a dylanwadwyd ar gan hyn gan ymatebion ymgymerwyr tripiau yn aros mewn 'fan gwersylla/cartref modur', a oedd hefyd yn lleiaf tebygol o nodi eu bod yn gallu aros yn eu dewis cyntaf o lety. Nid yw'n syndod bod cydberthyniad cryf rhwng 'methu ag aros mewn llety dewis cyntaf' a'i 'chael hi'n anodd' trefnu llety. Mae'r ddau faes hefyd yn cyd-fynd â boddhad profiad yn ystod y trip i Gymru, sef y rhai na allent aros yn eu llety dewis cyntaf, sy'n sylweddol fwy tebygol o nodi bod eu profiad o'u trip cyfan i Gymru yn 'wael'.
7. "Cefn gwlad neu bentref' oedd y mathau mwyaf poblogaidd o gyrchfannau ar gyfer tripiau i Gymru yn 2021, er mai dim ond ychydig o flaen y 'tref arfordirol/glan môr draddodiadol' ac 'arfordir gwledig' oedd hynny. Nid yw'n syndod bob amrywio ar draws y segmentau. Nododd 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' a 'chyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' mai 'cefn gwlad neu bentref' oedd eu dewis cyntaf, a nododd segmentau teuluoedd/pobl heb fagu teulu eto mai 'tref arfordirol/glan môr draddodiadol' oedd eu dewis cyntaf.
8. Tanlinellir natur 'egnïol' ymholwyr Croeso Cymru gyda'r mwyafrif helaeth wedi 'ymweld â neu archwilio ardaloedd' yn ystod eu trip yn 2021, a lleiafrif mawr wedi ymweld ag atyniad i ymwelwyr neu wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu chwaraeon awyr agored. Ar draws segmentau, roedd y gweithgarwch yn cyd-fynd â'u nodweddion allweddol; 'pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' oedd y lleiaf tebygol o fod wedi mynd i atyniad ymwelwyr, gyda 'theuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yn fwyaf tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu chwaraeon awyr agored. 'Cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' oedd yn fwyaf tebygol o ymweld â phrofiadau 'celfyddydau, diwylliannol neu adloniant'.
9. Er gwaethaf adrodd am 'dripiau egnïol' i Gymru, dywedodd bron i hanner y rhai a gymerodd ran fod y pandemig yn golygu eu bod yn ymweld â llai o dafarndai, barrau neu fwytai, dywedodd 3 o bob 10 eu bod yn ymweld â llai o atyniadau i ymwelwyr a nododd 1 o bob 7 eu bod yn osgoi gweithgareddau y byddent yn eu hystyried fel arfer

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau Allweddol (3)

10. Ar y cyfan, roedd ymgymerwyr tripiau i Gymru yn fodlon ar eu trip i Gymru, gyda dwy ran o dair yn ei ystyried yn ardderchog a 95% yn dda/rhagorol, gydag ychydig iawn o wahaniaethau yn ôl segmentau Croeso Cymru.
11. Ar lefel fanylach, roedd ymgymerwyr tripiau i Gymru yn fwyaf bodlon ar 'ansawdd yr amgylchedd naturiol' yng Nghymru, ac yna 'lleoedd i ymweld â hwy', 'y croeso', a 'glendid traethau'. Roedd y boddhad ar ei isaf gydag 'argaeledd toiledau cyhoeddus', 'costau parcio ceir' ac 'argaeledd cludiant cyhoeddus'.
12. Yn nodedig, o ystyried cyfran yr ymholwyr a oedd yn dal i oedi rhag teithio oherwydd y pandemig, roedd 3 o bob 5 yn 'fodlon iawn' â 'phlismona protocolau COVID-19' - ond dim ond hanner oedd yn fodlon ag 'ymlyniad y cyhoedd at fesurau COVID-19'.

**Nodweddion tripiau yn ôl cyrchfan**

1. 'Mynyddoedd a Môr Eryri' oedd y rhan o Gymru yr oedd ymgymerwyr tripiau yn fwyaf tebygol o fod wedi aros ynddi yn ystod eu trip yn 2021, yn gyson ar draws holl segmentau Croeso Cymru. Dilynwyd Eryri gan Sir Benfro, a 'Chanolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog'. 'Teuluoedd ar gyllideb' oedd y lleiaf tebygol o fod wedi aros yng 'Nghanolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog', tra bod 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yn fwyaf tebygol o fod wedi aros yn 'Llandudno a Bae Colwyn' a Gogledd-ddwyrain Cymru.
2. Mae rhanbarth tarddiad ymgymerwyr tripiau i gyrchfannau Cymru yn tueddu i adlewyrchu agosrwydd at y gyrchfan honno. Er enghraifft, mae bron i 1 o bob 4 ymwelydd â 'Mynyddoedd a Môr Eryri ' yn byw yng Ngogledd Orllewin Lloegr, gyda chyfran debyg o ymwelwyr â Cheredigion yn byw yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Mae ymgymerwyr tripiau i Ddyffryn Gwy neu Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn fwy tebygol o fyw yn Ne Ddwyrain Lloegr.
3. Roedd sgorau am y profiad o ymweld â Chymru ar eu huchaf yn achos ymgymerwyr tripiau a ymwelodd â Sir Benfro (65% yn ei hystyried yn ardderchog), Gogledd-ddwyrain Cymru (64%) a Chaerdydd (63%). Cafodd ystod o gyrchfannau eraill sgorau 'rhagorol' uchel hefyd. Er bod 'Dyffryn Gwy/Dyffryn Wysg' ac 'Arfordir Treftadaeth Morgannwg' wedi cael y sgorau isaf, roedd y mwyafrif helaeth yn dal i ystyried bod y cyrchfannau hyn yn 'dda' o leiaf'.

# Canfyddiadau Allweddol (4)

**Rhesymau dros beidio â chymryd tripiau i Gymru yn 2021**

1. O blith yr ymholwyr *na ymwelodd* â Chymru yn 2021, roedd tua hanner yn ystyried ymweld â Chymru, wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y rhai nad oeddent yn mynd i unman, a'r rhai a benderfynodd ymweld â rhywle arall yn Ynysoedd Prydain yn lle hynny. Mae'n werth nodi bod hyn yn wahanol i 2019 pan oedd y gyfran 'nad aeth unman' yn sylweddol is. O'r rhai a aeth i rywle arall yn Ynysoedd Prydain yn lle hynny, Gorllewin Lloegr oedd y prif gyrchfan amgen, gyda'r Alban a Swydd Efrog yn agos ar ei hôl hi.
2. Rhwystrau cysylltiedig â COVID oedd y 3 prif reswm pam na chymerodd pobl wyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2021, gyda 'nid oedd teithio yn beth cyfrifol bryd hynny', 'roedd cyfyngiadau'r llywodraeth yng Nghymru yn gwneud trip yn llai apelgar' , a 'bod â phryderon am ddal COVID-19' oll yn ymddangos. Dim ond lleiafrif a nododd resymau yn ymwneud â chynnyrch neu seilwaith Cymru (e.e. mae'n anodd teithio i Gymru neu o'i chwmpas).
3. 'Cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' oedd fwyaf tebygol o ddyfynnu 'rhesymau cysylltiedig â COVID' fel rhai a oedd yn egluro pam na wnaethant fynd ar daith yng Nghymru yn 2021, sydd efallai'n egluro pam eu bod wedi mynegeio'n is o ran troi ymholiadau yn dripiau na segmentau eraill.

**Cynlluniau cyffredinol ynghylch tripiau yn 2022**

1. O gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig, mae ymholwyr Croeso Cymru yn rhagweld y byddant yn cymryd 'cyfanswm net mwy' o dripiau dros nos yn y DU yn y 12 mis nesaf o gymharu â'r 12 mis blaenorol, ac maent yn blaenoriaethu gwyliau yn y DU yn hytrach na thramor – mae hynny'n gyson ar draws pob segment.
2. Yn nodedig, mae ymholwyr yn rhagweld parhau â'u hymddygiad o 2021 trwy ddewis lleoedd tawelach i ymweld â nhw yn y DU a chymryd gwyliau yn y DU ar adegau llai prysur – rhennir hyn ar draws segmentau. Mae yna awydd hefyd i 'ymweld â lleoedd sy'n agosach at gartref ar wyliau yn y DU', gan danlinellu ymhellach yr effaith y mae agosrwydd preswylfa yn debygol o'i chael ar bwy sy'n ymweld â Chymru ar gyfer eu tripiau dros nos.
3. Efallai gan adlewyrchu ymhellach y pryderon parhaus ynghylch COVID-19, mae ymholwyr Croeso Cymru yn disgrifio'u hunain fel 'llai tebygol' o ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn eu cyrchfan gwyliau yn y DU neu i deithio iddi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau Allweddol (5)

**Bwriad i gymryd trip i Gymru yn 2022**

1. Mae 20% o ymholwyr Croeso Cymru eisoes wedi trefnu trip i Gymru yn 2022, gyda 31% 'yn bendant yn mynd' ond heb drefnu lle eto. Mae 25% arall yn dweud eu bod yn debygol o fynd, sy'n golygu bod 76% yn ystyried ymweld.
2. Mae proffil ymgymerwyr tripiau 2022 yn weddol debyg i ymgymerwyr tripiau 2021; fe wnaeth trigolion Gogledd Orllewin a Gorllewin Canolbarth Lloegr fynegeio'n uwch na'r holl ymholwyr, ac fe wnaeth 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' fynegeio'n is. Fodd bynnag, efallai'n arwydd o hyder cynyddol, fe wnaeth 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' fynegeio'n uwch nag ymgymerwyr tripiau 2021.
3. Hefyd yn debyg i 2021, mae' bwriadwyr tripiau i Gymru yn 2022 yn fwyaf tebygol o gymryd eu trip ym mis Medi, ac yna Mai a Mehefin. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod lledaeniad uwch ar draws misoedd yn gynharach yn y flwyddyn yn 2022 (nag yn 2021), sydd efallai'n gysylltiedig â llai o bryderon ynghylch y pandemig, a llai o gyfyngiadau ar waith. Yn gyson â thripiau a gymerwyd yn 2021, 'segmentau teuluoedd' sydd fwyaf tebygol o gymryd trip i Gymru yn ystod gwyliau'r haf, gyda segmentau nad ydynt yn deuluoedd yn fwyaf tebygol o wneud hynny ym mis Medi. Yn nodedig, 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yw'r rhai mwyaf tebygol o gymryd tripiau ym mis Ebrill a mis Hydref (yn ystod y Pasg a hanner tymor yn ôl pob tebyg).
4. Mae mwyafrif llethol y bwriadwyr teithiau i Gymru yn 2022 yn debygol o gymryd eu trip gyda'u partner (75%). Mae 1 o bob 4 (26%) yn rhagweld y byddant yn gwneud hynny gyda phlant, ac mae 1 o bob 5 (20%) arall yn rhagweld y byddant yn gwneud hynny gyda'u hanifeiliaid anwes. Nid yw'n syndod bod amrywio sylweddol ar draws segmentau.
5. Mae ymgymerwyr tripiau i Gymru yn dangos bwriad gweddol gyfartal i gymryd trip dros nos yn 2022 i 'arfordir gwledig', 'cefn gwlad neu bentref' neu 'dref arfordirol/glan môr draddodiadol' – mae tua hanner yn cynllunio taith i bob un. 'Mae 'mynyddoedd neu fryniau' hefyd o ddiddordeb i gyfran uchel o fwriadwyr.
6. Ar draws segmentau blaenoriaeth, mae rhai amrywiadau yn y math o gyrchfan; segmentau 'teuluoedd' a 'phobl sydd heb fagu teuluoedd eto' sydd fwyaf tebygol o fwriadu ymweld â 'tref arfordirol/glan môr draddodiadol'. Mae 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio antur' yn dangos mwy o ddiddordeb na 'theuluoedd ar gyllideb' mewn 'mynyddoedd neu fryniau', a dim ond 'cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' sy'n cyfateb i hynny.
7. Yn debyg i dripiau a gymerwyd yn 2021, y gyrchfan fwyaf poblogaidd yng Nghymru ar gyfer trip yn 2022 yw Eryri, sy'n gyson ar draws segmentau, yn enwedig Teuluoedd Egnïol sy'n Chwilio am Antur. Dilynir Eryri gan Sir Benfro ac Ynys Môn.
8. Yn debyg i dripiau a gymerwyd yn 2021, gwersylla neu garafán yw'r math o lety mwyaf blaenllaw ar gyfer tripiau arfaethedig i Gymru yn 2022 (dylanwadir ar hyn gan ymatebion 'fan gwersylla/cartref modur' a 'charafán sefydlog – nad ydych chi'n berchen arni'), ac yna 'eiddo ar rent neu randy â gwasanaeth'. Mae 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' yn fwyaf tebygol o ragweld y byddant aros mewn gwesty, tra bod 'teuluoedd ar gyllideb', 'pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' a 'chyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' yn fwyaf tebygol o ddewis 'gwersylla neu garafán'.Yn yr un modd â thripiau a gymerir, mae ffafriaeth uchel 'teuluoedd ar gyllideb' ar gyfer 'gwersylla neu garafán' yn cael ei ysgogi gan fwriad i aros mewn 'carafán sefydlog – nad yw'n eiddo i chi' neu babell. Ar y llaw arall, yn achos 'cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' a 'phobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu', 'fan gwersylla/cartref modur' sy'n ysgogi hynny'.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau Allweddol (6)

9. ‘Ymweld â safleoedd treftadaeth’, ‘rhoi cynnig ar fwyd a diodydd lleol’ a ‘cherdded, heicio neu grwydro’ yw’r tri gweithgaredd y mae bwriadwyr tripiau i Gymru yn 2022 yn fwyaf tebygol o’u gwneud yn ystod eu trip i Gymru. Nid yw’n syndod bod amrywiaeth sylweddol yn y gweithgareddau a ragwelir yn ystod trip i Gymru fesul segment - ‘cyplau hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant’ sydd fwyaf tebygol o ymweld â safleoedd treftadaeth/atyniadau diwylliannol a dysgu am hanes a diwylliant lleol; segmentau teuluoedd sydd fwyaf tebygol o ymweld ag atyniadau i deuluoedd.
10. Mae diddordeb mewn digwyddiadau yn gymharol gyson ar draws segmentau, er bod ‘cyplau hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant’ a ‘chyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol’ gryn dipyn yn llai tebygol na segmentau eraill o fod â diddordeb mewn digwyddiadau sy’n cynnwys cerddoriaeth fyw, comedi, gweithgareddau neu chwaraeon.

**Rhwystrau rhag ymweld â Chymru yn 2022**

1. Nid oes unrhyw reswm amlwg pam nad yw sawl sydd ddim yn bwriadu cymryd trip i Gymru yn ystyried Cymru ar gyfer trip yn 2022; ‘rhesymau personol’ yw’r prif rwystr.  Yn gadarnhaol efallai, nid yw ‘rhesymau cysylltiedig â COVID’ yn fwyaf amlwg yn yr un modd ag yr oeddent yn achos ‘rhesymau dros beidio ag ymweld yn 2021’.
2. O’r rhai nad ydynt yn bwriadu ymweld â Chymru yn ystod y misoedd ‘allfrig’, ‘y tywydd’ oedd y prif reswm am hyn.

**Gwerthusiad o’r deunydd marchnata**

1. Efallai nad yw’n syndod, o ystyried y dull recriwtio ar gyfer yr ymchwil hwn, mai e-gylchlythyrau Croeso Cymru oedd y sianel gyfathrebu yr oedd ymholwyr yn fwyaf tebygol o fod wedi ymgysylltu â hi yn 2021, ac yna gwefan Croeso Cymru.  Roedd 3 o bob 10 ymholwr wedi ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru, wedi’u hysgogi gan nifer ymatebion ‘hoffi’/dilynwyr eu tudalen Facebook.
2. Yn gyfan gwbl, roedd 1 o bob 7 (14%) o ymholwyr Croeso Cymru yn *bendant* wedi gweld naill ai hysbyseb teledu neu hysbyseb ddigidol yn ystod y 3 mis blaenorol, gan godi i bron i hanner (46%) yn achos y rhain oedd yn *bendant neu o bosibl* wedi ei gweld.
3. Mae marchnata yn cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau o Gymru; dywedodd mwyafrif ei fod yn ‘cyfleu darlun cadarnhaol iawn o Gymru’ ‘yn gwneud i Gymru edrych yn ddeniadol iawn am wyliau neu wyliau byr yn yr hydref/gaeaf’(74%).  Mae mwyafrif hefyd yn cytuno y ‘bydd yn gwneud pobl yn fwy tebygol o ystyried Cymru ar gyfer gwyliau neu wyliau byr’.
4. Ar lefel ymhlyg, efallai bod marchnata allfrig wedi cael effaith gadarnhaol – roedd y rhai sy’n *bendant* yn cofio ei weld yn fwy tebygol o ystyried Cymru ar gyfer trip allfrig.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau Allweddol (7)

**Agweddau at gynaliadwyedd**

1. O gymharu â phoblogaeth y DU, mae ymholwyr Croeso Cymru yn mynegeio yn llawer uwch ar segmentau cynaliadwyedd 'Eco-Efengylwyr' a 'Bwriadau Da' BVA BDRC. Ar y cyd â chynnydd net a ragwelir mewn 'gwneud dewisiadau gwyliau cynaliadwy', mae hyn yn awgrymu bod ymholwyr Croeso Cymru yn rhoi lefel uchel o bwysigrwydd i gynaliadwyedd.
2. Mae ymholwyr Croeso Cymru yn fwyaf tebygol o ddatgan y dylai busnesau twristiaeth flaenoriaethu 'lleihad sylweddol mewn plastig untro', a 'chyfleoedd i gwsmeriaid ailgylchu/lleihau gwastraff'. Roedd gweithgarwch lleol hefyd yn amlwg - 'cefnogi'r ardal leol yn rhagweithiol', 'ymrwymiad i gyrchu a phrynu cynnyrch yn lleol', 'ymrwymiad i recriwtio staff o'r ardal leol', a 'hyrwyddo dealltwriaeth o hanes a diwylliant yr ardal leol' oedd gweddill y chwe cham gweithredu pwysicaf.
3. 'Cyflogi pobl o gefndiroedd gwahanol' a 'chyflogi tywyswyr teithiau lleol' oedd y camau gweithredu cynaliadwy y mae ymholwyr yn meddwl sydd leiaf pwysig i'w blaenoriaethu.
4. O ran camau gweithredu cynaliadwy i'r unigolyn, byddai ymholwyr Croeso Cymru yn fwyaf tebygol o ystyried o ddifrif 'blaenoriaethu prynu bwyd gan gynhyrchwyr lleol', 'teithio ar adegau tawel yn lle'r tymor brig' ac 'ymweld ag ardaloedd llai poblogaidd neu lai prysur', 'hyd yn oed pe bai hynny'n llai cyfleus'. Mae'n debygol bod gogwydd hŷn yr ymholwyr yn dylanwadu ar y parodrwydd i deithio ar adegau tawel, ac ni yw'n adlewyrchu'r farchnad yn ei chyfanrwydd.
5. Mae ymholwyr Croeso Cymru yn lleiaf tebygol o fod yn fodlon 'teithio i/o gwmpas eu cyrchfan mewn car trydan'. Maent hefyd yn llai tebygol o ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn lle eu car eu hunain.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Proffil Ymholwyr Croeso Cymru




# Perthynas â Chymru ac ymweliadau blaenorol â Chymru

- Dywedodd bron i hanner (47%) ymholwyr Croeso Cymru eu bod ‘yn aml yn cymryd gwyliau byr neu wyliau’ yng Nghymru ac yn ‘bwriadu gwneud hynny eto o fewn y flwyddyn nesaf’. Bydd 3 arall o bob 10 (31%) weithiau’n cymryd tripiau dros nos yng Nghymru ac maent bwriadu gwneud hynny eto yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.  Mae mwyafrif helaeth (97%) yr ymholwyr wedi ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr ar ryw adeg yn y gorffennol.

**Ffigur 1. Perthynas â Chymru, Canran, Pob Ymholwr**




**Ffigur 2. Ymweliadau blaenorol â Chymru, Canran. Pob Ymholwr**





A1. Pa un o’r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi mewn perthynas â Chymru? A2. A wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2021? A3. Ydych chi wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru cyn 2021? Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Rhyw a chyfnod bywyd ymholwyr

- Mae bron i 3 o bob 5 (58%) o ymholwyr Croeso Cymru a ymatebodd i'r arolwg yn fenywod (bydd gan y rhai sy'n cymryd trip gydbwysedd mwy cyfartal gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn briod/cyd-fyw), 2 o bob 5 (38%) yn perthyn i gyfnod bywyd ymddeoledigion, a bron i hanner (49%) yn annibynwyr hŷn. Dim ond 1 o bob 8 (13%) sy'n perthyn i gyfnodau bywyd 'teuluoedd' neu 'gyn-nythwyr' iau.
- Fel y dangosir yn adran fethodoleg yr adroddiad hwn, mae'r gogwydd tuag at gyfnodau bywyd hŷn yn cael ei lywio'n bennaf gan ffynhonnell y sampl – mae ymchwil arall yn dangos bod gan farchnad lawn Cymru broffil mwy cytbwys.

**Ffigwr 3. Rhyw Ymholwyr, Canran, Pob Ymholwr**




**Ffigur 4. Cyfnod bywyd ymholwyr, Canran, Pob Ymholwr**





Cwestiynau demograffeg Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522


# Statws cyflogaeth a gradd gymdeithasol ymholwyr

- Mae bron i hanner (47%) ymholwyr Croeso Cymru wedi ymddeol o gyflogaeth, ac mae tua thraean (32%) mewn cyflogaeth amser llawn. Mae'r ymholwyr yn fwyaf tebygol o berthyn i raddau cymdeithasol AB (47% yn disgyn i'r categori hwn), â 24% pellach i raddau cymdeithasol C1 – mae 71% yn perthyn i raddau cymdeithasol ABC1 ar y cyfan.

**Ffigur 5. Statws cyflogaeth ymholwyr, Canran, Pob Ymholwr**




**Ffigur 6. Gradd gymdeithasol ymholwyr, Canran, Pob Ymholwr**




X3a. Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau? X4a. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau swydd y prif enillydd incwm yn eich cartref?

Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522




Llywodraeth Cymru Welsh Government
BVA BDRC

# Rhanbarth preswylio ymholwyr

- Daw ymholwyr Croeso Cymru o amrywiaeth o ranbarthau ledled y DU.  Fodd bynnag, Gogledd Orllewin Lloegr, De-ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr yw'r ardaloedd tarddiad mwyaf blaenllaw. Cyfran fechan yn unig ohonynt yw trigolion Cymru.

**Ffigur 7. Rhanbarth tarddiad yr ymholwyr, Canran, Pob Ymholwr**





Cwestiynau demograffeg
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru  n=4,522

# Dadansoddiad o ymholwyr Croeso Cymru yn ôl segment

- Mae ymholwyr yn cael eu dominyddu gan 'segmentau blaenoriaeth' Croeso Cymru (sy'n cyfrif am 87%) – 'pobl sy'n chwilio am antur a diwylliant' sydd â'r gynrychiolaeth uchaf (36% o'r holl ymholwyr), ac yna 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' (24%) a 'phobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' (15%).

**Ffigur 8. Segmentau ymholwyr Croeso Cymru, Canran, Pob Ymholwr**




Algorithm segmentu
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522


# Troi ymholiadau yn dripiau a nodweddion tripiau 2021



# Pa un ai a gymerwyd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2021

- Aeth hanner (50%) ymholwyr Croeso Cymru ar drip dros nos i Gymru yn 2021, gyda chyfrannau tebyg yn cymryd 'gwyliau byr o 1-3 noson' (35%) a 'gwyliau hirach o 4+ noson' (36%).
- Ar gyfartaledd, fe wnaeth ymgymerwyr tripiau i Gymru gymryd 3.2 trip i Gymru yn 2021 – 1.8 gwyliau byr ac 1.4 trip hirach.

**Ffigur 9. Pa un ai a gymerwyd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2021 a nifer cyfartalog y tripiau, Cyfartaledd a Chanran, Pob Ymholwr.**




A2. A wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2021? A4. Sawl gwyliau neu wyliau byr wnaethoch chi eu cymryd yng Nghymru cyn 2021?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522


Llywodraeth Cymru Welsh Government

Bva BDRC


# Pa un ai a gymerwyd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ôl cyfnod bywyd

- ‘Mae ymholwyr sy’n ymddeoledigion gryn dipyn yn llai tebygol nag unrhyw gyfnod bywyd arall o fod wedi ymweld â Chymru yn 2021, sy’n gyson ag ymchwil gyffelyb a gynhaliwyd yn 2019. O’r herwydd, dyma’r unig gyfnod bywyd sy’n mynegeio’n is ymhlith y rhai sy’n cymryd trip na’r holl ymholwyr.
- Ymhlith cyfnodau bywyd ac eithrio ymddeoledigion, ymwelodd mwyafrif bach â Chymru yn 2021.

**Ffigur 10. Pa un ai a gymerwyd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2021 yn ôl cyfnod bywyd, Canran.**




**Ffigur 11. Dadansoddiad o ymgymerwyr tripiau i Gymru yn 2021 yn ôl cyfnod bywyd, Canran.**





A2.A wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2021?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=119; Teuluoedd n=450; Annibynwyr Hŷn n=2,2201; Ymddeoledigion n=1,707. Cymerwyr tripiau 2021 n=2,264; Pob ymholwr n=4,522


# Pa un ai a gymerwyd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ôl rhanbarth preswylio

- Mae agosrwydd at Gymru yn cyd-fynd â'r tebygolrwydd o fod wedi ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2021, ymholwyr sy'n trigo yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o fod wedi gwneud hynny, ac yna ymholwyr o Orllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr.
- Fel cyfran o holl deithwyr Cymru yn 2021, trigolion Gogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr sydd â'r gynrychiolaeth uchaf – y ddau yn uwch na'u cyfran ymhlith yr holl ymholwyr.

**Ffigur 12. Pa un ai a gymerwyd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2021 yn ôl rhanbarth preswylio, Canran.**




**Ffigur 13. Dadansoddiad o ymgymerwyr tripiau i Gymru yn 2021 yn ôl rhanbarth preswylio, Canran.**





A2. A wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2021?
Sylfaen: Cymru n=144; Gorllewin y Canolbarth n=627; Gogledd Orllewin n=735; De Orllewin n=416; Dwyrain y Canolbarth n=339; Llundain n=446; Dwyrain Lloegr n=300; De Ddwyrain n=628; Swydd Efrog ac Ardal Afon Humber n=322; Gogledd Ddwyrain n=91; Yr Alban n=165; Gogledd Iwerddon/Iwerddon n=95. Ymgymerwyr tripiau 2021 n=2,264; Pob ymholwr n=4,522

Llywodraeth Cymru Welsh Government


# Pa un ai a gymerwyd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ôl segmentau

- O blith 'segmentau blaenoriaeth' Croeso Cymru, 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' yw'r unig segment lle na wnaeth mwyafrif ymweld â Chymru yn 2021, ac maent yn mynegeio'n is na'u cyfran ymhlith yr holl ymholwyr. Mae'n debygol bod hyn wedi'i ysgogi gan oedran, 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o berthyn i'r cam bywyd 'ymddeoledigion'.

**Ffigur 14. Pa un ai a gymerwyd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2021 yn ôl segment Croeso Cymru, Canran.**




**Ffigur 15. Dadansoddiad o ymgymerwyr tripiau i Gymru yn 2021 yn ôl segment Croeso Cymru, Canran.**





A2. A wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2021?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=1,073; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=1,617; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=677; Teuluoedd ar gyllideb n=310; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=187; Ymgymerwyr tripiau 2021 n=2,264; Pob ymholwr n=4,522

Llywodraeth Cymru Welsh Government


# I ba raddau yr oedd Cymru yn gyrchfan dewis cyntaf

- I'r mwyafrif helaeth (91%) o'r ymholwyr a ymwelodd â Chymru yn 2021, Cymru oedd y gyrchfan dewis cyntaf. Fodd bynnag, dewisodd lleiafrif bach, ond nodedig (8%) Gymru yn lle taith dramor, ac roedd hynny'n uwch yn achos 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur'.

**Ffigur 16. I ba raddau yr oedd Cymru yn gyrchfan dewis cyntaf, Canran**




**Ffigur 17. I ba raddau yr oedd Cymru yn gyrchfan dewis cyntaf, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





A6. Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau hyn sydd fwyaf perthnasol i'ch taith yng Nghymru yn <NODER MIS>?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264; Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99


# Effaith COVID-19 ar nifer y tripiau dros nos yng Nghymru

- At ei gilydd, roedd y pandemig wedi lleihau nifer y gwyliau byr neu’r gwyliau y gwnaeth ymgymerwyr tripiau i Gymru eu cymryd yng Nghymru – dywedodd 44% eu bod wedi cymryd llai o dripiau o gymharu â 9% a oedd wedi cymryd mwy. Mae’r patrwm hwn yn gyson ar draws pob un o segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru.

**Ffigur 18. Effaith COVID-19 ar nifer y tripiau dros nos yng Nghymru, Canran**




**Ffigur 19. Effaith COVID-19 ar nifer y tripiau dros nos yng Nghymru, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





A13b. A sut fuasech chi'n dweud bod y pandemig a/neu gyfyngiadau'r llywodraeth wedi effeithio ar nifer y gwyliau a’r gwyliau byr y gwnaethoch chi eu cymryd yng Nghymru yn 2021?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264; Pobl hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur n=99

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Effaith COVID-19 ar nifer y tripiau dydd yng Nghymru

- Roedd y pandemig hefyd wedi lleihau nifer y tripiau dydd a gymerwyd gan ymgymerwyr tripiau dros nos i Gymru yng Nghymru – 45% wedi cymryd llai, o gymharu â 6% a oedd wedi cymryd mwy.  Unwaith eto, mae'r patrwm hwn yn gyson ar draws pob un o segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru.

**Ffigur 20. Effaith COVID-19 ar nifer y tripiau dydd yng Nghymru, Canran, holl ymgymerwyr tripiau i Gymru**




**Ffigur 21. Effaith COVID-19 ar nifer y tripiau dydd yng Nghymru, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





A13c.  A sut fuasech chi'n dweud bod y pandemig a/neu gyfyngiadau'r llywodraeth wedi effeithio ar nifer y tripiau diwrnod y gwnaethoch chi eu cymryd?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264; Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol  n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99

# Effaith COVID-19 ar drip i Gymru yn 2021

- Ar lefel fanylach, roedd y pandemig yn fwyaf tebygol o fod wedi arwain at ymgymerwyr tripiau i Gymru yn ymweld â 'llai o dafarndai, barrau neu fwytai' (fe wnaeth 44% yn nodi hyn), gan ddewis 'lle tawelach, llai gorlawn i ymweld ag ef' (35%) neu ymweld â Chymru 'pan oedd yn llai prysur' (31%).   Roedd tua 3 o bob 10 (28%) hefyd wedi ymweld â llai o atyniadau ac roedd 1 o bob 4 (24%) yn llai tebygol o ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn eu cyrchfan.  Mae'r holl resymau hyn yn sgorio uchaf ymhlith ymgymerwyr tripiau o gyfnod bywyd 'ymddeoledigion'.
- Ar gyfer 1 o bob 8 ymwelydd (12%), roedd y pandemig yn golygu eu bod wedi ymweld â lleoedd yng Nghymru nad oeddent wedi eu hystyried o'r blaen.  Dywedodd tua 1 o bob 4 (23%) nad oedd y pandemig wedi cael unrhyw effaith ar eu trip dros nos yng Nghymru.

**Ffigur 22. Effaith COVID-19 ar dripiau dros nos yn y wlad hon, Canran, 10 Uchaf**





A13a. Ym mha un o'r ffyrdd canlynol, os o gwbl, yr effeithiodd y pandemig a/neu gyfyngiadau'r llywodraeth ar eich gwyliau yng Nghymru yn <NODER MIS>?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264

# Effaith COVID-19 ar drip i Gymru yn 2021 yn ôl segment

- Yn achos pob segment blaenoriaeth, ymweld â 'llai o dafarndai, barrau a bwytai' oedd y prif effaith ar eu taith yng Nghymru, er bod hyn yn bennaf yn wir yn achos 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' a oedd hefyd yn fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â llai o leoedd yng Nghymru ac i fod wedi osgoi gweithgareddau y byddent fel arfer yn eu hystyried.
- Segmentau teuluoedd oedd y lleiaf tebygol o gymryd eu gwyliau yng Nghymru pan oedd yn llai prysur; efallai bod gwyliau ysgol yn eu cyfyngu i hyn.

**Ffigur 23. Effaith COVID-19 ar dripiau dros nos yn y wlad hon, Canran, Pob ymholwr**




A13a. Ym mha un o'r ffyrdd canlynol, os o gwbl, yr effeithiodd y pandemig a/neu gyfyngiadau'r llywodraeth ar eich gwyliau yng Nghymru yn <NODER MIS>?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99


Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Mis pryd y cymerwyd trip i Gymru yn 2021

- Fe wnaeth cyfran uchel o ymgymerwyr tripiau i Gymru gymryd eu tripiau yn ystod misoedd yr Hydref – dros draean (37%) ym mis Medi (y mis â'r nifer uchaf o dripiau) a mwy na chwarter ym mis Hydref (26%). Dim ond cyfran fach o ymgymerwyr tripiau a gymerodd eu trip yng Nghymru ym mis Mawrth ac Ebrill, pan oedd cyfyngiadau'r llywodraeth newydd gael eu llacio.
- Mae'n werth nodi y bydd y patrwm hwn yn cael ei ddylanwadu gan effaith cyfyngiadau'r llywodraeth yn gynharach yn y flwyddyn, a phroffil oedran hŷn yr ymatebwyr, sy'n llai tebygol o gymryd tripiau yn ystod y misoedd brig.

**Ffigur 24. Mis pryd y cymerwyd trip i Gymru yn 2021, Canran.**





A5. Ac ym mha fisoedd o'r flwyddyn wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau byr neu wyliau yn 2021?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mis pryd y cymerwyd trip i Gymru yn 2021 yn ôl segment Croeso Cymru

- Mae’r mis pan gymerwyd tripiau i Gymru yn amrywio fesul segment - yn fwyaf nodedig, roedd dros hanner pob ‘segment teuluoedd’ wedi cymryd trip ym mis Awst, gyda ‘segmentau nad ydynt yn deuluoedd’ yn fwyaf tebygol o fod wedi cymryd trip ym mis Medi.

**Ffigur 25. Mis pryd y cymerwyd trip i Gymru yn 2021, Canran, yn ôl segment Croeso Cymru**





A5. Ac ym mha fisoedd o’r flwyddyn wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau byr neu wyliau yn 2021?
Sylfaen: Pobl hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur n=99

# Llety yr arhoswyd ynddo yn ystod y trip i Gymru

- Gwersylla neu garafán' oedd y math o lety a ffafrid ymhlith ymgymerwyr tripiau i Gymru yn 2021 (fe wnaeth 36% aros yn y categori hwn) - 'fan gwersylla/cartref symudol' oedd y math o lety unigol mwyaf blaenllaw yn y categori hwn (18%).
- Eiddo ar rent neu randy â gwasanaeth' (26%) oedd yr ail fath o lety a ffafrid fwyaf, 'tŷ/bwthyn ar rent' oedd y math mwyaf blaenllaw yn y categori hwn(22%).

**Ffigur 26. Llety yr arhoswyd ynddo yn ystod trip yng Nghymru, Canran**




A8a. Pa fath o lety wnaethoch chi aros ynddo yn ystod y trip hwn yng Nghymru yn <mis>?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264
Daliwch sylw: Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn a'r holl gwestiynau dilynol yn ymwneud â thripiau yn 2021 yn seiliedig ar un drip a ddewiswyd ar hap o blith y rhai a gymerodd yr ymatebwr yng Nghymru yn 2021


Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Llety yr arhoswyd ynddo yn ystod y trip i Gymru yn ôl segment

- Ceir rhywfaint o amrywio o ran y dewis o lety ar draws segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru; roedd 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' yn fwy tebygol o fod wedi aros mewn gwesty nag unrhyw fath arall o lety, ac yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny nag unrhyw segment arall. Roedd 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yn fwy tebygol o fod wedi aros mewn 'eiddo wedi'i rentu neu randy â gwasanaeth'. 'Teuluoedd ar gyllideb' oedd fwyaf tebygol o fod wedi aros mewn llety 'gwersylla/carafán', a dylanwadwyd ar hyn gan ymatebion 'carafán sefydlog – nad ydych chi'n berchen arni'. Yn nodedig, er bod 'cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' a 'phobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' hefyd yn fwyaf tebygol o fod wedi aros mewn llety 'gwersylla/carafán', dylanwadwyd ar hyn gan ymatebion tripiau 'fan gwersylla/cartref modur'.

**Ffigur 27. Llety yr arhoswyd ynddo yn ystod trip yng Nghymru, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





A8a. Pa fath o lety wnaethoch chi aros ynddo yn ystod y trip hwn yng Nghymru yn <mis>?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99

Llywodraeth Cymru Welsh Government


# Rhwyddineb trefnu llety yng Nghymru

- I’r mwyafrif o’r ymgymerwyr tripiau i Gymru (83%), roedd trefnu llety ar gyfer eu taith yn 2021 naill ai’n hawdd iawn neu’n weddol hawdd. Fodd bynnag, roedd hyn yn llai tebygol o fod yn wir ar gyfer y rhai a oedd yn dewis ‘gwersylla neu garafán’ (71%), a dylanwadwyd ar hyn gan ymatebion gan ymgymerwyr tripiau a wnaeth mewn ‘fan gwersylla/cartref modur’.
- Fe wnaeth 1 o bob 10 (10%) o ymgymerwyr tripiau i Gymru ei chael yn ‘anodd’ trefnu llety, gan godi i 18% o’r rhai a ddewisodd ‘wersylla neu garafán’’.

**Ffigur 28. Rhwyddineb trefnu llety, Canran.**




**Ffigur 29. Rhwyddineb trefnu llety, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**




A9. Gan feddwl yn ôl, pa mor hawdd neu anodd oedd hi i ganfod llety a threfnu llety ar gyfer eich gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn <NODWCH MIS>?


Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264; Wedi aros mewn llety gwersylla neu garafán n=687; Wedi aros mewn eiddo rhent neu randy â gwasanaeth n=578; Wedi aros mewn cartref preifat n=366; Wedi aros mewn gwesty/motél/tafarn n=497l Wedi aros mewn tŷ llety/gwely a brecwast/ffermdy n=171

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pa un ai a oedd y llety yr arhoswyd ynddo yn ddewis cyntaf

- Llwyddodd y mwyafrif o ymgymerwyr tripiau (78%) i aros yn eu llety dewis cyntaf yn ystod eu trip, ac roedd hynny'n gymharol gyson ar draws mathau o lety, er yn is ymhlith y rhai a oedd yn aros mewn llety gwersylla/carafán.
- Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng y gallu i aros mewn llety dewis cyntaf a'i chael yn hawdd trefnu llety.

**Ffigur 30. Pa un ai a oedd llety yn ddewis cyntaf, Canran, Yn ôl dewis o lety a rhwyddineb trefnu**





A10. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r llety y gwnaethoch chi aros ynddo yn y pen draw?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264; Wedi aros mewn llety gwersylla neu garafán n=687; Wedi aros mewn eiddo rhent neu randy â gwasanaeth n=578; Wedi aros mewn cartref preifat n=366; Wedi aros mewn gwesty/motél/tafarn n=497l Wedi aros mewn tŷ llety/gwely a brecwast/ffermdy n=171; wedi'i chael hi'n hawdd trefnu lle n=1,678; heb ei chael hi'n hawdd nac yn anodd trefnu lle n=128; wedi'i chael hi'n anodd trefnu lle n=194

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Math o gyrchfan ar gyfer trip i Gymru

- 'Cefn gwlad neu bentref' (38%) oedd y mathau mwyaf poblogaidd o gyrchfannau ar gyfer tripiau i Gymru yn 2021, er mai dim ond ychydig o flaen y 'tref arfordirol/glan môr draddodiadol' (36%) ac 'arfordir gwledig' (33%) oedd hynny.

**Ffigur 31. Math o gyrchfan ar gyfer trip i Gymru, Canran.**





A11.Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fath(au) o gyrchfannau yr arhosoch ynddynt yn ystod eich trip diweddaraf yng Nghymru yn <NODWCH MIS>?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264

# Math o gyrchfan ar gyfer trip i Gymru yn ôl segment

- Mae'r math o gyrchfan a ffafrir yn amrywio ar draws segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru; nododd 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' a 'chyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' mai 'cefn gwlad neu bentref' oedd eu dewis cyntaf.  Ymhlith segmentau teuluoedd a phobl heb fagu teulu eto, 'tref arfordirol/glan môr draddodiadol' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

**Ffigur 32. Math o gyrchfan ar gyfer trip i Gymru, Canran, yn ôl segment Croeso Cymru**





A11.Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fath(au) o gyrchfannau yr arhosoch ynddynt yn ystod eich trip diweddaraf yng Nghymru yn <NODWCH MIS>?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99

# Ymddygiad yn ystod trip i Gymru

- ‘Ymweld ag ardaloedd neu archwilio ardaloedd’ oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd o bell ffordd i’r rhai wnaeth gymryd trip yn 2021; roedd 83% wedi gwneud hyn (sylweddol uwch na’r 74% yn 2019), wedi’i ddilyn gan ‘mynd i atyniad i ymwelwyr’ (39%, 5 pwynt canran yn uwch nag yn 2019) a 'chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu chwaraeon awyr agored’ (38%). Ymwelodd bron i 3 o bob 10 (28%) â’u ffrindiau neu berthnasau yn ystod eu trip yn 2021.
- Yn nodedig, dim ond 6% a fynychodd ddigwyddiad cyhoeddus a drefnwyd (o gymharu ag 11% yn 2019), a oedd wedi’i effeithio mae’n debyg gan gyfyngiadau a phryderon yn ymwneud â COVID.

**Ffigur 33. Gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod trip i Gymru, Canran.**





A12. Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol wnaethoch chi yn ystod y trip hwn yng Nghymru yn [MIS]?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymddygiad yn ystod trip i Gymru yn ôl segment

- Ar draws segmentau, 'ymweld â neu archwilio ardaloedd' oedd y prif weithgaredd.  Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amrywio o ran y gweithgareddau eraill.  'Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' oedd y lleiaf tebygol o fod wedi mynd i atyniad ymwelwyr, gyda 'theuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yn fwyaf tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu chwaraeon awyr agored.
- Cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' oedd yn fwyaf tebygol o ymweld â phrofiadau 'celfyddydau, diwylliannol neu adloniant'.

**Ffigur 34. Gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod trip i Gymru, Canran, yn ôl segment Croeso Cymru**





A12. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol wnaethoch chi yn ystod y trip hwn yng Nghymru ym [MIS]?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Sgorio’r profiad o aros yng Nghymru

- Dywedodd dwy ran o dair (65%) o’r rhai a gymerodd drip yng Nghymru fod eu profiad o aros yng Nghymru yn ‘rhagorol’, a dywedodd traen ei fod yn ‘dda’. Mae’r gallu i aros mewn llety dewis cyntaf yn sbardun cryf i foddhad cyffredinol ynghylch y trip, gyda lleiafrif yn unig o’r rhai a arhosodd mewn math o lety gwahanol i’w dewis cyntaf yn ystyried bod eu taith yn ‘rhagorol’.
- O gymharu â 2019, mae cyfrannau tebyg yn rhoi sgôr da/rhagorol, ond mae gostyngiad bach yn y gyfran sy’n ystyried bod eu hymweliad yn ‘rhagorol

**Ffigur 35. Sgôr i’r profiad o aros yng Nghymru, Canran.**




**Ffigur 36. Sgôr i’r profiad o aros yng Nghymru, Canran, yn ôl rhwyddineb trefnu llety**




A14. Gan ddychwelyd at eich trip dros nos yng Nghymru yn <NODER MIS>, beth yw eich barn am eich profiad cyffredinol?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264




Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Sgorio'r profiad o aros yng Nghymru yn ôl segment

- Roedd y farn am y profiad o'r ymweliad yn gymharol gyson ar draws pob un o segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru – tua dwy ran o dair yn rhoi sgôr 'rhagorol'.

**Ffigur 37. Sgôr i'r profiad o aros yng Nghymru, Canran, yn ôl rhwyddineb trefnu llety, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





A14. Gan ddychwelyd at eich trip dros nos yng Nghymru yn <NODER MIS>, beth yw eich barn am eich profiad cyffredinol?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99

# Boddhad â gwahanol elfennau o'r profiad yng Nghymru

- Wrth asesu elfennau unigol o'r daith, ymgymerwyr tripiau i Gymru oedd fwyaf bodlon ar 'ansawdd yr amgylchedd naturiol' yng Nghymru (82% yn fodlon iawn), ac yna 'lleoedd i ymweld â hwy' (72%), 'y croeso a gafwyd ' (72%), a 'glendid traethau' (hefyd 72%).
- Yn nodedig, roedd 61% yn 'fodlon iawn' â 'phlismona protocolau COVID-19' - uwch na'r 49% yn fodlon ar 'ymlyniad y cyhoedd at fesurau COVID-19'.

**Ffigur 38. Boddhad â gwahanol elfennau o'r profiad o ymweld â Chymru, Canrn, 12 uchaf**





A15.Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich trip yng Nghymru yn <NODWCH MIS>?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264. Dilëwyd atebion Amherthnasol

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Boddhad â gwahanol elfennau o'r profiad yng Nghymru

- O'r holl fesurau a brofwyd, roedd sgorau profiad ymweliadau Cymru ar eu hisaf ar gyfer 'argaeledd toiledau cyhoeddus' (32% ddim yn fodlon iawn), 'cost parcio ceir' (hefyd 32%) ac 'argaeledd cludiant cyhoeddus' (30%).

## Ffigur 39. Boddhad â gwahanol elfennau o'r profiad o ymweld â Chymru, Canrn, 12 isaf





A15.Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich trip yng Nghymru yn <NODWCH MIS>?
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264. Dilëwyd atebion Amherthnasol. Hygyrchedd i bobl ag anabledd – gofynnwyd hyn i'r rhai a ddywedodd fod ganddynt anabledd yn unig =346n=346

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Elfen fwyaf pleserus o drip dros nos i Gymru

- Ochr yn ochr â sgorau boddhad, harddwch naturiol Cymru a gafodd y nifer fwyaf o sylwadau cadarnhaol pan ofynnwyd i ymholwyr beth roeddent wedi'i fwynhau fwyaf am eu trip. 'Pobl gyfeillgar' oedd yr ail o blith yr ymatebion mynychaf, ac yna 'bwyd' ac 'atyniadau/safleoedd hanesyddol'.
- Soniodd lleiafrif sylweddol nad oedd Cymru 'yn rhy brysur' ac am ei 'diogelwch COVID'.

**Ffigurau 40. Y 10 elfen a grybwyllwyd fwyaf, Canran yr holl grybwylliadau**




"Y mannau agored eang ym mynyddoedd y Cambria â phrinder pobl eraill."

"Y bobl - maent bob amser yn groesawgar iawn."

"Wel mae'n wlad o ddigonedd i gogydd wedi ymddeol sy'n dal yn heini, does dim modd curo defaid morfa heli Cymreig, pysgod eithriadol o dda."

"Y golygfeydd anhygoel a'r awyrgylch cyfeillgar ble bynnag yr ewch. Dyma ble byddaf i'n mynd i fod yn hapus.."

"Mynd i ran o'r arfordir a oedd yn eithaf gwag ac yn hollol brydferth.."

A16. Pa un neu ddau beth wnaethoch chi eu mwynhau fwyaf yn ystod eich trip i Gymru yn <NODWCH MIS>?
Canlyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o 200 o ymatebion a chyfanswm cronnus o 236 o elfennau



Llywodraeth Cymru Welsh Government
BVA BDRC


# Nodweddion tripiau yn ôl cyrchfan



# Ble'r arhoswyd yng Nghymru yn ystod trip i Gymru

- 'Mynyddoedd a Môr Eryri' oedd y rhan o Gymru yr oedd ymwelwyr yn fwyaf tebygol o fod wedi aros ynddi yn ystod eu trip yn 2021, ac yna Sir Benfro, a 'Chanolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog'. Fe wnaeth ymgymerwyr tripiau aros mewn ystod o gyrchfannau eraill hefyd.

**Ffugur 41. Cyrchfan yr ymwelwyd â hi yn ystod trip i Gymru, Canran.**




A7. Ble yng Nghymru wnaethoch chi aros dros nos yn ystod y trip hwn yn [MIS]
Sylfaen: Holl ymgymerwyr tripiau i Gymru n=2,264


Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Ble'r arhoswyd yng Nghymru yn ystod trip i Gymru yn ôl segment

- 'Mynyddoedd a Môr Eryri' oedd y prif gyrchfan ar gyfer pob un o segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru, er bod rhai gwahaniaethau o ran dewis cyrchfan. 'Teuluoedd ar gyllideb' oedd y lleiaf tebygol o fod wedi aros yng 'Nghanolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog', tra bod 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yn fwyaf tebygol o fod wedi aros yn 'Llandudno a Bae Colwyn' a Gogledd-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod lle mae pobl yn aros yn cael ei ddylanwadu'n fwy gan breswylfa na phroffil segment.

**Ffigur 42. . Cyrchfan yr ymwelwyd â hi yn ystod trip i Gymru, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





A7. Ble yng Nghymru wnaethoch chi aros dros nos yn ystod y trip hwn yn [MIS]
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=452; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=877; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=350; Teuluoedd ar gyllideb n=183; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=99

# Dadansoddiad o segmentau ymwelwyr â Chymru yn ôl cyrchfan

- Mae'r dadansoddiad o segmentau Croeso Cymru yn dilyn yn fras y dadansoddiad yn ôl pob ymholydd. 'Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' oedd y segment mwyaf ar gyfer holl gyrchfannau Cymru yn 2021, wedi'i ddilyn gan 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' a 'phobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu'. Mae gwahaniaethau arwyddocaol cyfyngedig ar draws cyrchfannau, ac eithrio Caerdydd, a ddenodd gyfran is o 'gyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol'.

**Ffigur 43. Dadansoddiad o segmentau Croeso Cymru yn ôl cyrchfan yng Nghymru, Canran.**




| | Other segments | Active family explorers | Budget family | Pre-family explorers | Scenic explorer couples | Older cultural explorer couples |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2021 trip-takers | 14 | 4 | 7 | 16 | 37 | 22 |
| Mynyddoedd ac Arfordir Eryri | 10 | 5 | 7 | 17 | 41 | 18 |
| Sir Benfro | 12 | 3 | 7 | 17 | 41 | 19 |
| Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog | 11 | 3 | 3 | 16 | 43 | 22 |
| Llandudno a Bae Colwyn | 19 | 6 | 9 | 16 | 30 | 17 |
| Ynys Môn | 14 | 4 | 10 | 14 | 41 | 16 |
| Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria | 12 | 4 | 9 | 16 | 42 | 15 |
| Bae Abertawe, y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Chwm Nedd | 12 | 4 | 7 | 17 | 46 | 15 |
| Caerdydd | 22 | 4 | 3 | 15 | 30 | 24 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 12 | 9 | 8 | 17 | 31 | 21 |
| Sir Gaerfyrddin | 12 | 4 | 5 | 17 | 38 | 21 |
| Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | 13 | 2 | 1 | 13 | 46 | 25 |
| Cymoedd De Cymru | 19 | 4 | 9 | 10 | 34 | 22 |
| Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg | 11 | 5 | 5 | 14 | 44 | 21 |

Cwestiynau segmentau
Sylfaen: Eryri n=682; Sir Benfro n=401; Canolbarth Cymru n=374; Llandudno a Bae Colwyn n=322; Ynys Môn n=294; Ceredigion n=292; Bae Abertawe.. n=200; Caerdydd n=157; Gogledd-ddwyrain Cymru n=146; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=95; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=63

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Rhanbarth preswylio ymwelwyr â chyrchfannau yng Nghymru

- Mae rhanbarth tarddiad ymgymerwyr tripiau i gyrchfannau Cymru yn tueddu i adlewyrchu agosrwydd at y gyrchfan honno. Er enghraifft, mae bron i 1 o bob 4 ymwelydd â 'Mynyddoedd a Môr Eryri ' yn byw yng Ngogledd Orllewin Lloegr, gyda chyfran debyg o ymwelwyr â Cheredigion yn byw yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Mae ymgymerwyr tripiau i Ddyffryn Gwy neu Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn fwy tebygol o fyw yn Ne Ddwyrain Lloegr.

**Tabl 5. Dadansoddiad yn ôl rhanbarth o ymgymerwyr tripiau i Gymru yn ôl cyrchfan yng Nghymru, mae'r 3 uchaf ym mhob cyrchfan wedi'u tanlinellu ac mewn ffont trwm**

| | Mynyddoedd ac Arfordir Eryri | Sir Benfro | Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog | Llandudno a Bae Colwyn | Ynys Môn | Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria | Bae Abertawe, y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Chwm Nedd | Caerdydd | Gogledd Ddwyrain Cymru | Sir Gaerfyrddin | Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | Cymoedd De Cymru | Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Orllewin | **23%** | 10% | 10% | **29%** | **39%** | **11%** | 9% | 10% | **29%** | **14%** | **10%** | 9% | 8% |
| Gorllewin y Canolbarth | **17%** | **17%** | **17%** | **20%** | **16%** | **23%** | **14%** | **11%** | **12%** | 10% | **10%** | **14%** | **13%** |
| De Ddwyrain | 9% | **18%** | **15%** | 8% | 6% | **14%** | **15%** | **22%** | **9%** | **17%** | **24%** | **15%** | **21%** |
| De Orllewin | 7% | **15%** | **16%** | 5% | 5% | **11%** | **16%** | **15%** | 8% | **14%** | **10%** | 10% | **19%** |
| Llundain | **10%** | 9% | 12% | **10%** | 5% | 7% | 12% | **11%** | 5% | 11% | **11%** | **14%** | 11% |
| Dwyrain y Canolbarth | 9% | 8% | 7% | 9% | **9%** | 8% | 5% | 9% | 6% | 6% | 6% | 7% | 6% |
| Dwyrain Lloegr | 6% | 7% | 7% | 4% | 4% | 8% | 7% | 6% | 6% | 6% | 5% | 8% | 2% |
| Swydd Efrog ac Ardal Afon Humber | 9% | 4% | 4% | 8% | 8% | 4% | 7% | 4% | 7% | 4% | 5% | 7% | 6% |
| Cymru | 4% | 8% | 9% | 3% | 5% | 10% | 10% | 5% | 5% | 9% | 15% | 8% | 10% |
| Yr Alban | 3% | 2% | 2% | 3% | 2% | 1% | 1% | 3% | 6% | 6% | 2% | 3% | 3% |
| Gogledd Ddwyrain | 2% | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% | 2% | 1% | 4% | 1% | 1% | 2% | 0% |
| Iwerddon/GI | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% | 3% | 4% | 1% | 1% | 2% | 0% |

Cwestiynau demograffeg
Sylfaen: Eryri n=682; Sir Benfro n=401; Canolbarth Cymru n=374; Llandudno a Bae Colwyn n=322; Ynys Môn n=294; Ceredigion n=292; Bae Abertawe.. n=200; Caerdydd n=157; Gogledd-ddwyrain Cymru n=146; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=95; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=63




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sgôr am y profiad yn gyffredinol yn ôl cyrchfan yng Nghymru

- Roedd sgorau am y profiad o ymweld â Chymru ar eu huchaf yn achos ymgymerwyr tripiau a ymwelodd â Sir Benfro (65% yn ei hystyried yn ardderchog), Gogledd-ddwyrain Cymru (64%) a Chaerdydd (63%). Cafodd ystod o gyrchfannau eraill sgorau 'rhagorol' uchel hefyd.
- Er bod 'Dyffryn Gwy/Dyffryn Wysg' ac 'Arfordir Treftadaeth Morgannwg' wedi cael y sgorau isaf, roedd y mwyafrif helaeth yn dal i ystyried bod y cyrchfannau hyn yn 'dda' o leiaf.

**Ffigur 44. Sgôr i'r profiad o aros yng Nghymru, Canran, yn ôl cyrchfannau yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru**




A14. Gan ddychwelyd at eich taith dros nos yng Nghymru yn <NODER MIS>, beth yw eich barn am eich profiad cyffredinol?
Sylfaen: Eryri n=682; Sir Benfro n=401; Canolbarth Cymru n=374; Llandudno a Bae Colwyn n=322; Ynys Môn n=294; Ceredigion n=292; Bae Abertawe.. n=200; Caerdydd n=157; Gogledd-ddwyrain Cymru n=146; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=95; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=63
Daliwch sylw: Mae sgorau yn seiliedig ar y profiad cyffredinol gyda sgorau cyrchfannau wedi'u casglu yn ôl y cyrchfannau yr ymwelwyd â hwy.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Sgorau boddhad ag elfennau o drip i Gymru yn ôl cyrchfan yng Nghymru

- Yn gadarnhaol, cyflawnodd pob cyrchfan yng Nghymru sgôr boddhad cyfartalog o 9 allan o 10 o leiaf ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Ar draws mesurau eraill, ni chafodd unrhyw gyrchfan sgôr is nag 8 allan o 10.

**Tabl 6. Boddhad â gwahanol elfennau o brofiad yr ymweliad â Chymru, Cyfartaledd allan o 10, yn ôl cyrchfan yng Nghymru, Y sgorau uchaf wedi'u tanlinellu, Wedi'u gosod yn nhrefn y sgorau cyffredinol**

| | Mynyddoedd ac Arfordir Eryri | Sir Benfro | Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog | Llandudno a Bae Colwyn | Ynys Môn | Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria | Bae Abertawe, y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Chwm Nedd | Caerdydd | Gogledd Ddwyrain Cymru | Sir Gaerfyrddin | Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | Cymoedd De Cymru | Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd yr amgylchedd naturiol | 9.3 | 9.4 | 9.2 | 9.2 | 9.2 | 9.3 | 9.2 | 9.1 | 9.2 | 9.1 | 9.1 | 9.1 | 9.1 |
| Glendid traeth | 9.0 | 9.1 | 8.8 | 9.0 | 9.0 | 8.9 | 9.0 | 9.1 | 8.8 | 8.9 | 8.8 | 8.9 | 9.2 |
| Mannau i ymweld â hwy yng Nghymru | 8.9 | 9.1 | 8.9 | 8.9 | 8.9 | 8.9 | 8.9 | 9.1 | 8.9 | 9.0 | 8.8 | 8.7 | 9.2 |
| Ansawdd dŵr môr | 8.9 | 8.9 | NA | 8.9 | 8.9 | 8.8 | 8.8 | 8.8 | 8.5 | 8.8 | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* |
| Y croeso a gawsoch | 8.8 | 9.0 | 8.9 | 8.7 | 8.7 | 8.8 | 8.9 | 9.0 | 9.0 | 8.9 | 8.6 | 8.8 | 8.8 |
| Teimlo'n ddiogel | 8.8 | 8.8 | 8.8 | 8.7 | 8.7 | 8.8 | 8.8 | 8.6 | 8.8 | 8.5 | 8.9 | 8.6 | 9.0 |
| Gwasanaeth i Gwsmeriaid | 8.7 | 8.8 | 8.8 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.8 | 8.8 | 8.6 | 8.5 | 8.8 | 8.8 |
| Gwerth am Arian | 8.5 | 8.5 | 8.5 | 8.4 | 8.4 | 8.4 | 8.5 | 8.5 | 8.5 | 8.3 | 8.3 | 8.4 | 8.5 |

A15.Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich trip yng Nghymru yn <NODWCH MIS>? Sylfaen: Eryri n=682; Sir Benfro n=401; Canolbarth Cymru n=374; Llandudno a Bae Colwyn n=322; Ynys Môn n=294; Ceredigion n=292; Bae Abertawe.. n=200; Caerdydd n=157; Gogledd-ddwyrain Cymru n=146; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=95; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=63
Daliwch sylw: Mae sgorau yn seiliedig ar y profiad cyffredinol gyda sgorau cyrchfannau wedi'u casglu yn ôl y cyrchfannau yr ymwelwyd â hwy.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Bva BDRC

# Sgorau boddhad ag elfennau o drip i Gymru yn ôl cyrchfan yng Nghymru

- Mae amrywiad cyfyngedig mewn sgorau ar draws ardaloedd eraill yn ôl cyrchfan. Fodd bynnag, mae Caerdydd yn amlwg fel y gyrchfan a dderbyniodd y sgôr uchaf ar gyfer ‘argaeledd atyniadau ymwelwyr’, sef 8.4 allan o 10.

**Tabl 7. Boddhad â gwahanol elfennau o brofiad yr ymweliad â Chymru, Cyfartaledd allan o 10, yn ôl cyrchfan yng Nghymru, Sgorau uchaf wedi'u tanlinellu, Wedi'u gosod yn nhrefn y sgorau cyffredinol**

| | Mynyddoedd ac Arfordir Eryri | Sir Benfro | Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog | Llandudno a Bae Colwyn | Ynys Môn | Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria | Bae Abertawe, y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Chwm Nedd | Caerdydd | Gogledd Ddwyrain Cymru | Sir Gaerfyrddin | Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | Cymoedd De Cymru | Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Glendid y strydoedd | 8.5 | 8.5 | 8.5 | 8.5 | 8.5 | 8.4 | 8.2 | 8.2 | 8.4 | 8.3 | 8.0 | 7.9 | 8.2 |
| Plismona protocolau COVID-19 | 8.5 | 8.4 | 8.6 | 8.5 | 8.5 | 8.5 | 8.6 | 8.2 | 8.3 | 8.1 | 8.3 | 8.2 | 8.5 |
| Cyfeillgar i anifeiliaid answer | 8.3 | 8.6 | 7.9 | 8.3 | 8.3 | 8.2 | 8.3 | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | 8.3 | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* |
| Nifer y twristiaid eraill | 8.2 | 8.1 | 8.3 | 8.1 | 8.2 | 8.2 | 8.3 | 8.2 | 8.3 | 7.9 | 8.3 | 8.2 | 8.3 |
| Ymlyniad y cyhoedd at fesurau COVID-19 | 8.1 | 8.1 | 8.1 | 8.1 | 8.1 | 8.1 | 8.2 | 8.0 | 8.2 | 8.0 | 7.9 | 8.1 | 8.1 |
| Glendid toiledau cyhoeddus | 8.0 | 8.1 | 7.9 | 7.9 | 7.9 | 7.9 | 7.7 | 8.0 | 8.1 | 7.7 | 7.8 | 7.7 | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* |
| Argaeledd atyniadau i ymwelwyr | 8.0 | 8.2 | 8.0 | 8.1 | 7.9 | 7.8 | 8.1 | 8.4 | 7.9 | 7.6 | 7.7 | 8.0 | 8.0 |
| Ymddygiad twristiaid eraill | 8.0 | 8.0 | 8.0 | 7.9 | 8.1 | 8.1 | 8.2 | 8.1 | 8.1 | 7.8 | 7.8 | 7.8 | 7.9 |

A15.Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich trip yng Nghymru yn <NODWCH MIS>? Sylfaen: Eryri n=682; Sir Benfro n=401; Canolbarth Cymru n=374; Llandudno a Bae Colwyn n=322; Ynys Môn n=294; Ceredigion n=292; Bae Abertawe.. n=200; Caerdydd n=157; Gogledd-ddwyrain Cymru n=146; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=95; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=63
Daliwch sylw: Mae sgorau yn seiliedig ar y profiad cyffredinol gyda sgorau cyrchfannau wedi'u casglu yn ôl y cyrchfannau yr ymwelwyd â hwy.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Sgorau boddhad ag elfennau o drip i Gymru yn ôl cyrchfan yng Nghymru

- Caerdydd hefyd a gafodd y sgorau uchaf am ‘gyfleoedd siopa’, ‘argaeledd lleoedd i fwyta ac yfed’ ac ansawdd ac argaeledd cludiant cyhoeddus.

**Tabl 8. Boddhad â gwahanol elfennau o brofiad yr ymweliad â Chymru, Cyfartaledd allan o 10, yn ôl cyrchfan yng Nghymru, Sgorau uchaf wedi'u tanlinellu, Wedi'u gosod yn nhrefn y sgorau cyffredinol**

| | Mynyddoedd ac Arfordir Eryri | Sir Benfro | Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog | Llandudno a Bae Colwyn | Ynys Môn | Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria | Bae Abertawe, y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Chwm Nedd | Caerdydd | Gogledd Ddwyrain Cymru | Sir Gaerfyrddin | Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | Cymoedd De Cymru | Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hygyrchedd i bobl ag anabledd | 7.8 | 7.6 | 7.9 | 7.8 | 7.8 | 7.8 | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* |
| Cyfleoedd i siopa | 7.9 | 8.2 | 8.0 | 8.4 | 8.0 | 7.9 | 8.0 | 8.8 | 8.2 | 7.9 | 7.8 | 8.0 | 8.2 |
| Argaeledd mannau i yfed a bwyta | 7.8 | 8.0 | 8.0 | 8.3 | 7.9 | 7.9 | 8.1 | 8.6 | 8.0 | 7.8 | 7.9 | 7.9 | 7.9 |
| Argaeledd lleoedd parcio | 7.7 | 7.7 | 7.5 | 7.5 | 7.5 | 7.4 | 7.4 | 7.6 | 7.7 | 7.2 | 7.0 | 7.4 | 7.8 |
| Ansawdd cludiant cyhoeddus | 7.5 | 7.7 | 7.0 | 7.9 | 6.9 | 7.0 | 7.8 | 7.9 | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | 7.3 | 6.3 | 6.8 | 7.9 |
| Cost parcio ceir | 7.2 | 7.0 | 6.9 | 7.1 | 6.8 | 6.9 | 6.9 | 7.0 | 7.1 | 6.4 | 6.7 | 6.9 | 6.8 |
| Argaeledd toiledau cyhoeddus | 7.2 | 7.1 | 6.9 | 7.1 | 6.6 | 7.1 | 7.0 | 6.9 | 6.6 | 6.5 | 6.5 | 6.9 | 7.2 |
| Argaeledd cludiant cyhoeddus | 7.1 | 7.3 | 6.3 | 7.6 | 6.5 | 6.5 | 7.5 | 7.9 | *Meintiau sylfaen yn rhy fach* | 6.4 | 5.5 | 7.0 | 7.8 |

A15.Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich trip yng Nghymru yn <NODWCH MIS>? Sylfaen: Eryri n=682; Sir Benfro n=401; Canolbarth Cymru n=374; Llandudno a Bae Colwyn n=322; Ynys Môn n=294; Ceredigion n=292; Bae Abertawe.. n=200; Caerdydd n=157; Gogledd-ddwyrain Cymru n=146; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=95; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=63
Daliwch sylw: Mae sgorau yn seiliedig ar y profiad cyffredinol gyda sgorau cyrchfannau wedi'u casglu yn ôl y cyrchfannau yr ymwelwyd â hwy.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
BVA BDRC


# Rhesymau dros beidio cymryd tripiau i Gymru yn 2021




# Ystyriaethau o ran cyrchfannau ymhlith y sawl na ymwelodd â Chymru

- O blith yr ymholwyr na ymwelodd â Chymru yn 2021, roedd dros hanner (53%) yn ystyried mynd yno. Roedd 1 o bob 4 (24%) yn ystyried Cymru ond wedi penderfynu ymweld â rhywle arall yn Ynysoedd Prydain yn lle hynny. Roedd 3 arall o bob 10 (28%) yn ystyried Cymru ond heb fynd i unman o gwbl. De Orllewin Lloegr oedd y prif gyrchfan amgen (31%) gyda'r Alban (25%) a Swydd Efrog (24%) yn agos ar ei hôl hi.
- Mae'n werth nodi, yn 2021, bod y gyfran nad aeth i unman ddwywaith cymaint â hynny cyn y pandemig (yn 2019)

**Ffigur 45. Bwriadau i ymweld â Chymru yn ôl pobl na wnaeth ymweld â Chymru, Canran, pobl na wnaeth ymweld â Chymru**




**Ffigur 46. Cyrchfan y rhai a aeth i rywle arall yn Ynysoedd Prydain, Canran, pobl na wnaeth ymweld â Chymru**





B1. Gwnaethoch nodi nad aethoch i Gymru yn ystod 2021. A oeddech yn ystyried trip yng Nghymru yn 2021 ar unrhyw adeg?

# Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2021

- Dywedodd dros hanner (51%) yr ymholwyr na ymwelodd â Chymru i gymryd trip  yn 2021 mai'r rheswm am hyn oedd y ffaith 'nad oedd teithio yn beth cyfrifol i'w wneud bryd hynny', gyda 2 o bob 5 (38%) yn nodi 'cyfyngiadau'r llywodraeth yng Nghymru yn gwneud taith yn llai apelgar', a chyfran debyg (37%) yn dweud fod ganddynt 'bryderon am ddal COVID-19'.
- Roedd mwy nag 1 o bob 5 (22%) o'r rhai nad wnaethant ymweld â Chymru yn poeni am y croeso y byddent yn ei gael oherwydd COVID.

**Ffigur 47.  Rheswm dros beidio ag ymweld â Chymru am drip dros nos yn 2021, Canran, pobl na wnaeth ymweld â Chymru**





B4. Beth yw'r rhesymau pam na wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2021?
Sylfaen: Pawb na wnaeth ymweld â Chymru n=2,258

# Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2021 yn ôl segment

- ‘Nid oedd teithio yn beth cyfrifol i’w wneud bryd hynny’, ‘pryderon ynghylch dal COVID’ a ‘chyfyngiadau’r llywodraeth’ oedd yn fwyaf tebygol o fod yn rhesymau dros beidio ag ymweld ymhlith ‘cyplau hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant’ – y segment lleiaf tebygol o fod wedi ymweld â Chymru yn 2021. Roedd segmentau teuluoedd yn llai tebygol o ddyfynnu'r rhesymau hyn, er eu bod yn gyffredin i bawb.

**Ffigur 48. Rheswm dros beidio ag ymweld â Chymru am drip dros nos yn 2021, Canran, pobl na wnaeth ymweld â Chymru**




B4. Beth yw’r rhesymau pam na wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2021?
Sylfaen: Pobl hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant n=621; Cyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=740; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=327; Teuluoedd ar gyllideb n=127; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur n=88

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC


# Cynlluniau cyffredinol ynghylch tripiau yn 2022




# Nifer y tripiau dros nos yn y DU ydych chi’n debygol o'u cymryd yn y 12 mis nesaf

- Mae ymholwyr Croeso Cymru yn rhagweld ‘cyfanswm net mwy’ o dripiau dros nos yn y DU yn y 12 mis nesaf o gymharu â’r 12 mis blaenorol (62% yn disgwyl cymryd mwy a 5% yn disgwyl cymryd llai) – sy’n gyson ar draws pob segment. Mae segmentau teuluoedd ychydig yn llai tebygol na segmentau eraill o gymryd ‘mwy o dripiau’ ond bydd hyn yn cael ei ddylanwadu’n rhannol gan y ffaith nad yw amlder eu tripiau yn 2021 yn cael eu heffeithio i’r un graddau gan y pandemig.
- Er bod ymholwyr hefyd yn rhagweld y byddant yn cymryd ‘cyfanswm net mwy’ o dripiau tramor yn ystod y 12 mis nesaf, dim ond ar gyfer 1 o bob 4 y mae hyn yn wir, ac mae’r mwyafrif yn dal ‘ddim yn gwybod’. ‘Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur’ a ‘phobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu’ yw’r segmentau sydd fwyaf tebygol o fod yn cynllunio ‘mwy’ o dripiau tramor, a’r lleiaf tebygol o ddweud ‘ddim yn gwybod’.

**Ffigur 49. Nifer y tripiau dros nos yn y DU a thramor yr ydych chi’n debygol o’u cymryd yn y 12 mis nesaf o gymharu â’r 12 mis diwethaf, Canran, Pob ymholwr**




**Ffigur 50. Nifer y tripiau dros nos yn y DU a thramor yr ydych chi’n debygol o’u cymryd yn y 12 mis nesaf o gymharu â’r 12 mis diwethaf, Canran, Pob ymholwr yn ôl segmentau Croeso Cymru**





F1a. Gan feddwl am y 12 mis nesaf, a ydych yn debygol o gymryd mwy neu lai o wyliau/gwyliau byr yn y DU a thramor nag y gwnaethoch yn ystod y 12 mis diwethaf, neu tua’r un faint?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522; Pobl hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant n=1,073; Cyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=1,617; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=310; Teuluoedd ar gyllideb n=310; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur n=187.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid ymddygiad cyffredinol a ragwelir yn 2022

- O gymharu â’r cyfnod cyn y pandemig, mae ymholwyr Croeso Cymru yn nodi eu bod yn fwyaf tebygol o ‘flaenoriaethu gwyliau yn y DU yn lle gwyliau tramor’, ac yna ‘dewis lleoedd tawelach i ymweld â hwy ar gyfer gwyliau yn DU’ a ‘chymryd gwyliau yn DU ar adegau llai prysur’.

**Ffigur 51. Newid ymddygiad a ragwelir yn 2022, Canran a mwy/llai tebygol net, Pob Ymholwr**





F1b. Faint yn fwy neu'n llai tebygol ydych chi o wneud y canlynol yn 2022, o gymharu â chyn y pandemig?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid ymddygiad cyffredinol a ragwelir yn 2022

- Hefyd o gymharu â’r cyfnod cyn y pandemig, mae ymholwyr Croeso Cymru yn ystyried eu hunain yn llai tebygol o ‘gymryd gwyliau yn y DU sy’n cyfuno busnes â hamdden’, ‘defnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i’w cyrchfan gwyliau yn y DU’, a ‘defnyddio cludiant cyhoeddus yn eu cyrchfan gwyliau yn y DU'.

## Ffigur 52. Newid ymddygiad a ragwelir yn 2022, Canran a mwy/llai tebygol net, Pob Ymholwr




F1b. Faint yn fwy neu'n llai tebygol ydych chi o wneud y canlynol yn 2022, o gymharu â chyn y pandemig?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid ymddygiad cyffredinol a ragwelir yn 2022 yn ôl segment

- Ceir rhai gwahaniaethau newid ymddygiad nodedig yn ôl segmentau Croeso Cymru. Mae pob segment yn dangos awydd cryf i 'ddewis lleoedd tawelach, llai gorlawn i ymweld â hwy ar gyfer gwyliau yn DU'. Fodd bynnag, mae segmentau nad ydynt yn deuluoedd yn sylweddol fwy tebygol o gymryd gwyliau yn y DU ar adegau llai prysur. Efallai'n nodedig, 'teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yw'r rhai lleiaf tebygol o flaenoriaethu gwyliau yn y DU yn lle teithio'n rhyngwladol.

**Tabl 8. Newid ymddygiad a ragwelir yn 2022, mwy/llai tebygol net, segmentau Croeso Cymru**

| | Cyplau hyn sy'n chwilio am antur a diwylliant | Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol | Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu | Teuluoedd ar gyllideb | Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewis mannau tawelach, llai gorlawn i ymweld â hwy ar gyfer gwyliau yn y DU | +59 | +64 | +62 | +51 | +60 |
| Cymryd gwyliau yn y DU ar adegau llai prysur | +58 | +61 | +60 | +33 | +28 |
| Blaenoriaethu gwyliau yn y DU yn lle teithio'n rhyngwladol | +54 | +58 | +54 | +60 | +47 |
| Gwneud dewisiadau cynaliadwy/ecogyfeillgar wrth ddewis gwyliau yn y DU | +42 | +40 | +43 | +37 | +40 |
| Ymweld â ffrindiau neu berthnasau yn ystod fy ngwyliau yn y DU | +30 | +23 | +31 | +43 | +27 |
| Ymweld â mannau sy'n nes at adref yn ystod gwyliau yn y DU | +24 | +22 | +31 | +34 | +17 |
| Trefnu gwyliau yn y DU ar y funud olaf | +21 | +19 | +31 | +17 | +11 |
| Cymryd gwyliau yn y DU gyda grwpiau sy'n llai na'r arfer | +12 | +11 | +13 | +10 | +5 |

F1b. Faint yn fwy neu'n llai tebygol ydych chi o wneud y canlynol yn 2022, o gymharu â chyn y pandemig?
Sylfaen: Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=1,617; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=310; Teuluoedd ar gyllideb n=310; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=187.

# Newid ymddygiad cyffredinol a ragwelir yn 2022 yn ôl segment

- Ychydig iawn o wahaniaethau a geir yn ôl segmentau ar draws mesurau eraill.  Fodd bynnag, ‘teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur’ yw’r rhai lleiaf tebygol o flaenoriaethu lleoedd y maent wedi bod iddynt o’r blaen ar wyliau yn y DU.

**Tabl 9. Newid ymddygiad a ragwelir yn 2022, mwy/llai tebygol net, segmentau Croeso Cymru**

| | Cyplau hyn sy’n chwilio am antur a diwylliant | Cyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol | Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu | Teuluoedd ar gyllideb | Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur |
|---|---|---|---|---|---|
| Newid y mathau o lety y byddwn fel arfer yn eu defnyddio ar wyliau yn y DU | +5 | -2 | +10 | +5 | +10 |
| Newid y math o weithgareddau y byddwn fel arfer yn eu gwneud ar wyliau yn y DU | +5 | +5 | +15 | +11 | +19 |
| Cymryd tripiau dydd yn y DU yn lle gwyliau yn y DU | +4 | -5 | +9 | +12 | +4 |
| Blaenoriaethu mannau yr wyf wedi ymweld â hwy o'r blaen ar wyliau yn y DU | +2 | +6 | +4 | +11 | -5 |
| Ymweld â llai o atyniadau nag y byddwn fel arfer ar wyliau yn y DU | -1 | 5 | -1 | +4 | -4 |
| Cymryd llai o wyliau yn y DU ond cymryd gwyliau hirach | -4 | **0** | +1 | 7+ | +7 |
| Defnyddio cludiant cyhoeddus yn fy nghyrchfan gwyliau yn y DU | -16 | -26 | -21 | -31 | -32 |
| Defnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i fy nghyrchfan wyliau yn y DU | -36 | -47 | -41 | -42 | -43 |
| Cymryd gwyliau yn y DU sy’n cyfuno busnes â phleser | -42 | -43 | -27 | -27 | -29 |

F1b.  Faint yn fwy neu'n llai tebygol ydych chi o wneud y canlynol yn 2022, o gymharu â chyn y pandemig?
Sylfaen: Cyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=1,617; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=310; Teuluoedd ar gyllideb n=310; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur  n=187.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BDRC


# Bwriad i Gymryd Trip i Gymru yn 2022



# Bwriad i gymryd trip dros nos i Gymru yn 2022

- Mae 20% o ymholwyr Croeso Cymru eisoes wedi trefnu trip i Gymru yn 2022, gyda 31% 'yn bendant yn mynd' ond heb drefnu lle eto. Mae 25% arall yn dweud eu bod yn debygol o fynd, sy'n golygu bod 76% yn agored i ymweld. Mae 19% yn ansicr a dim ond 4% a ddywedodd eu bod yn debygol neu bendant o beidio yn mynd i Gymru.
- Mae ymgymerwyr tripiau 2021 yn fwy tebygol o fod yn bwriadu cymryd trip yng Nghymru yn 2022, gyda'r rhai na wnaethant gymryd tripiau yn 2021 yn fwy tebygol o fod yn ansicr.

**Ffigur 53. Bwriad i gymryd trip i Gymru yn 2022, Canran, Pob ymholwr**




F2. A ydych chi'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522; Wedi cymryd gwyliau yng Nghymru yn 2021 n=2,264; Heb gymryd gwyliau yng Nghymru yn 2021 n=2,114


Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC


# Bwriad i gymryd trip dros nos i Gymru yn 2022 yn ôl rhanbarth preswylio

- Yn debyg i dripiau a gymerwyd yn 2021, ymholwyr Croeso Cymru sy'n byw yng Nghymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr sydd fwyaf tebygol o fod yn bwriadu cymryd trip i Gymru yn 2022.
- Mae cyfansoddiad bwriadwyr tripiau i Gymru 2022 yn ôl rhanbarth bron yn union yr un fath ag ymgymerwyr tripiau i Gymru yn 2021 a'r holl ymholwyr.

**Ffigur 54. Bwriad i gymryd trip i Gymru yn 2022, Canran, yn ôl rhanbarth preswylio**




**Ffigur 55: Dadansoddiad o fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 yn ôl rhanbarth preswylio, Canran.**





F2. A ydych chi'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Cymru n=144; Gorllewin y Canolbarth n=627; Gogledd Orllewin n=735; De Orllewin n=416; Dwyrain y Canolbarth n=339; Llundain n=446; Dwyrain Lloegr n=300; De Ddwyrain n=628; Swydd Efrog ac Ardal Afon Humber n=322; Gogledd Ddwyrain n=91; Yr Alban n=165; Gogledd Iwerddon (GI)/Iwerddon n=95. Ymgymerwyr tripiau 2021 n=2,264; Pob ymholwr n=4,522; Pob ymholwr Croeso Cymru n=4,522; 2022 bwriadwyr 2022 n=3,154; ymgymerwyr tripiau 2021 n=2 264


# Bwriad i gymryd trip dros nos i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- Teuluoedd ar gyllideb yw segment blaenoriaeth Croeso Cymru sydd fwyaf tebygol o fod wedi trefnu eu trip i Gymru ar gyfer 2022 *yn barod*, gyda segmentau eraill yr un mor debygol o fod wedi gwneud hynny neu o fod yn bwriadu gwneud hynny.
- Cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant yw'r segment sydd fwyaf tebygol o fod yn 'ansicr' ynghylch pa un ai a fyddant yn cymryd trip i Gymru yn 2022, a dyma'r unig segment i fynegeio yn is na'u cyfran ymhlith yr holl ymholwyr. Wedi dweud hynny, ar hyn o bryd, maent yn mynegeio'n uwch ymhlith bwriadwyr tripiau 2022 nag ymhlith *ymgymerwyr tripiau 2021*.

**Ffigur 56. Bwriad i gymryd trip i Gymru yn 2022, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**




**Ffigur 57: Dadansoddiad o fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 yn ôl segment Croeso Cymru, Canran.**





F2. A ydych chi'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=1,073; Cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol n=1,617; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=677; Teuluoedd ar gyllideb n=310; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=187 Pob ymholwr n=4,522; Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522; Bwriadwyr 2022 n=3,154; Ymgymerwyr tripiau 2021 264

# Mis y bwriedir cymryd trip i Gymru yn 2022 ac awydd i deithio yn ystod cyfnodau allfrig

- Hefyd yn debyg i 2021, ymholwyr ynghylch tripiau i Gymru yn 2022 yn fwyaf tebygol o gymryd eu trip ym mis Medi 2022, ac yna Mai a Mehefin. O gymharu â 2021, mae'n ymddangos bod lledaeniad uwch ar draws misoedd yn gynharach yn y flwyddyn , sydd efallai'n gysylltiedig â llai o bryderon ynghylch y pandemig yn 2022.
- Yn yr un modd â ‘thripiau a gymerwyd’, mae’r gogwydd tuag at gyfnodau oddi allan i’r tymor brig yn cael ei ddylanwadu gan yr ymholwyr o oedran hŷn.

**Ffigur 58. Mis y bwriedir cymryd trip i Gymru yn 2022, Canran, Bwriadwyr ymweld â Chymru**





A2. Pryd ydych chi’n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 n=3,154;


# Ystyriaeth i deithio i Gymru yn ystod cyfnodau allfrig

- *Nid* yw dwy ran o dair o fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 yn ystyried trip allfrig i Gymru yn 2022 (diffinnir fel rhwng Ionawr a Mawrth neu Hydref i Ragfyr).
- O blith y rhai nad ydynt yn bwriadu cymryd trip allfrig, mae bron i ddwy ran o dair (65%) yn dweud y byddent yn debygol o wneud hynny rywbryd yn y dyfodol.

**Ffigur 59. Ystyried cymryd trip i Gymru yn Ion-Maw neu Hyd-Rhag 2022, Canran, Pob bwriadwyr**




**Ffigur 60. Tebygolrwydd o gymryd trip i Gymru rhwng Hydref a Mawrth yn y dyfodol, Canran, pobl sydd ddim yn bwriadu ymweld â Chymru rhwng Hydref a Mawrth**




A2. Pryd ydych chi’n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022? F3b. Gwnaethoch nodi nad ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn 2022. Pa mor debygol fyddech chi o ystyried gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn y dyfodol?
Ffigur 54: Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru n=3,154; Figure 54 Sylfaen: Pawb sydd ddim yn bwriadu cymryd taith allfrig n=2,960

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Rhwystrau rhag cymryd tripiau allfrig i Gymru yn y dyfodol

- Ymhlith y rhai nad oedd yn ystyried trip i Gymru rhwng mis Hydref a mis Mawrth, y tywydd oedd y rheswm a grybwyllwyd amlaf. Roedd y tywydd yn rhwystr yn enwedig ymhlith y rhai sy'n bwriadu bod yn egnïol yn yr awyr agored, gan awgrymu bod hwn yn faes y gallai cyfathrebu ddymuno mynd i'r afael ag ef.

**Cwmwl geiriau 1: rhwystrau rhag cymryd tripiau allfrig i Gymru**




**Detholiad o ddyfyniadau**

"Oni bai bod y tywydd yn annhymhorol o gynnes, ni fuaswn yn awyddus gan fy mod yn hoffi cerdded llawer."

"Mae'n well gen i oriau golau dydd hirach y cyfnod BST. Rwy'n hoffi bod yn yr awyr agored felly ni ellir gwneud cymaint â hynny ar ôl iddi dywyllu.."

"Oherwydd prin iawn yw'r pethau i'w gwneud yn yr Hydref a'r Gaeaf ac mae'n oer a gwlyb hefyd."

"Fel arfer byddaf yn gwersylla wrth droed yr Wyddfa ar gyfer llawer o fy ymweliadau a gall gwersylla rhwng Hydref a Mawrth fod yn uffernol o oer.."

"Oherwydd, er nad oes sicrwydd o gael tywydd ffafrio yng Nghymru (nac ychwaith yn y DU), rydym ni'n hoffi sicrhau fod gennym ni gyfle teg i gael rhywfaint o dywydd derbyniol!".

F3c. Pam nad ydych yn debygol o ystyried Cymru am wyliau neu wyliau byr rhwng mis Hydref a mis Mawrth? Nodwch hynny
Sylfaen: n=c.500


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC

# Mis y bwriedir cymryd trip i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- Yn gyson â thripiau a gymerwyd yn 2021, ‘segmentau teuluoedd’ sydd fwyaf tebygol o gymryd trip i Gymru yn ystod gwyliau’r haf, gyda segmentau nad ydynt yn deuluoedd yn fwyaf tebygol o wneud hynny ym mis Medi.  Yn nodedig, ‘teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur’ yw’r rhai mwyaf tebygol o gymryd tripiau ym mis Ebrill a mis Hydref (yn ystod y Pasg a hanner tymor yn ôl pob tebyg)

**Ffigur 61.  Mis y bwriedir cymryd trip i Gymru yn 2022, Canran, Bwriadwyr ymweld â Chymru**





F3a. Pryd ydych chi’n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant n=777; Cyplau sy’n chwilio am antur a diwylliant n=1294; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=541; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur n=145

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfansoddiad grŵp ymwelwyr a ragwelir ar gyfer trip i Gymru yn 2022

- Mae mwyafrif llethol y bwriadwyr tripiau i Gymru yn 2022 yn debygol o gymryd eu trip gyda'u partner (75%). Mae 1 o bob 4 (26%) yn rhagweld y byddant yn gwneud hynny gyda phlant, ac mae 1 o bob 5 (20%) arall yn rhagweld y byddant yn gwneud hynny gyda'u hanifeiliaid anwes.

**Ffigur 62. Cyfansoddiad grŵp ymwelwyr ar gyfer y trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran**





F4. Pwy, os o gwbl, sy'n debygol o ddod gyda chi ar eich gwyliau neu wyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru 2022n=3,154

# Cyfansoddiad grŵp ymwelwyr a ragwelir ar gyfer trip i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- Nid yw'n syndod bod y mwyafrif llethol o'r ymgymerwyr tripiau sy'n perthyn i' 'segmentau teuluoedd' yn rhagweld y byddant yn cymryd trip i Gymru gyda 'phlant/wyresau ac wyresau'. Maent hefyd yn dangos mwy o debygolrwydd o gymryd trip gyda'u 'rhieni/rhieni partner', gan awgrymu y byddant yn cymryd tripiau aml-genhedlaeth.

**Ffigur 63. Cyfansoddiad grŵp ymwelwyr ar gyfer y trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





F4. Pwy, os o gwbl, sy'n debygol o ddod gyda chi ar eich gwyliau neu wyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=777; Cyplau sy'n chwilio am antur a diwylliant n=1294; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=541; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=145

# Math o gyrchfan a ragwelir ar gyfer trip i Gymru yn 2022

- Mae ymgymerwyr tripiau i Gymru yn dangos bwriad gweddol gyfartal i gymryd trip dros nos yn 2022 i ‘arfordir gwledig’, ‘cefn gwlad neu bentref’ neu ‘dref arfordirol/glan môr draddodiadol’ – mae tua hanner yn cynllunio taith i bob un.  ‘Mae ‘mynyddoedd neu fryniau’ hefyd o ddiddordeb i gyfran uchel o fwriadwyr.

**Ffigur 64. Math o gyrchfan ar gyfer trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran**





F6. Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau’r prif fathau o gyrchfannau yr ydych chi’n debygol o aros ynddynt yn ystod eich gwyliau neu wyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 n=3,154

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Math o gyrchfan a ragwelir ar gyfer trip i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- Ar draws segmentau blaenoriaeth, mae rhai amrywiadau yn y math o gyrchfan; segmentau ‘teuluoedd’ a ‘phobl sydd heb fagu teuluoedd eto’ sydd fwyaf tebygol o fwriadu ymweld â ‘tref arfordirol/glan môr draddodiadol’. Mae ‘teuluoedd egnïol sy’n chwilio antur’ yn dangos mwy o ddiddordeb na ‘theuluoedd ar gyllideb’ mewn ‘mynyddoedd neu fryniau’, a dim ond ‘cyplau sy’n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol’ sy’n cyfateb i hynny. ‘Cyplau hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant’ yw’r segment arweiniol ar gyfer gwyliau mewn dinasoedd.

**Ffigur 65. Math o gyrchfan ar gyfer trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**




F6. Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau’r prif fathau o gyrchfannau yr ydych chi’n debygol o aros ynddynt yn ystod eich gwyliau neu wyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant n=777; Cyplau sy’n chwilio am antur a diwylliant n=1294; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=541; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur n=145


Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Cyrchfan a ragwelir ar gyfer trip i Gymru yn 2022

- Y gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer trip i Gymru yn 2022 yw Eryri. Dilynir Eryri gan Sir Benfro ac Ynys Môn. Mae'r patrwm diddordeb mewn cyrchfan yn weddol debyg i ymweliadau â chyrchfannau ymhlith ymholwyr yn 2021.

**Ffigur 66. Cyrchfan ar gyfer trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran**





F5. Pa rai o'r ardaloedd hyn ydych chi'n bwriadu ymweld â hwy ar eich gwyliau neu wyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 n=3,154

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cyrchfan a ragwelir ar gyfer trip i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- ‘Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am antur’ yw'r rhai mwyaf tebygol o gymryd trip i i Eryri, a'r lleiaf tebygol o fwriadu mynd i Sir Benfro.  Ychydig iawn o amrywiad sydd ar draws segmentau eraill, er ei bod yn werth nodi bod ‘Teuluoedd ar Gyllideb’ yn mynegeio’n sylweddol is o ran bwriad i fynd ar dripiau i ‘Ganolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog’ a ‘Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg’.

**Ffigur 67. Cyrchfan ar gyfer trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**




F5. Pa rai o’r ardaloedd hyn ydych chi’n bwriadu ymweld â hwy ar eich gwyliau neu wyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?


Sylfaen: Pobl hŷn sy’n chwilio am antur a diwylliant n=777; Cyplau sy’n chwilio am antur a diwylliant n=1294; Pobl sy’n chwilio am antur cyn magu teulu n=541; Teuluoedd egnïol sy’n chwilio am anturn=145

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Dadansoddiad o segmentau Croeso Cymru yn ôl cyrchfan yng Nghymru

- Mae'r dadansoddiad o segmentau yn ôl cyrchfan yn gymharol gyson ar draws cyrchfannau ac eithrio Caerdydd sy'n mynegeio'n llawer is na chyrchfannau eraill yn achos 'cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' – efallai nad yw'n syndod o ystyried hoffter y segment hwn o amgylcheddau naturiol.

**Ffigur 68. Dadansoddiad o segmentau Croeso Cymru yn ôl cyrchfan yng Nghymru yn 2022, Canran.**




Cwestiynau segmentau
Sylfaen: Eryri n=1,724; Sir Benfro n=919; Canolbarth Cymru n=539; Llandudno a Bae Colwyn n=503; Ynys Môn n=405; Ceredigion n=292; Bae Abertawe n=575; Caerdydd n=517; Gogledd-ddwyrain Cymru n=359; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=320; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=320

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Dadansoddiad o ranbarthau preswylio yn ôl cyrchfan yng Nghymru yn 2022

- Yn yr un modd â theithiau a gymerwyd, mae dewis cyrchfan ar gyfer tripiau 2022 yn dueddol o gydberthyn ag agosrwydd at yr ardal honno – trigolion Gogledd Orllewin Lloegr sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'r rhai sy'n bwriadu mynd i Eryri ac Ynys Môn; Gorllewin Canolbarth Lloegr sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'r rhai sy'n bwriadu mynd i Geredigion; a De-ddwyrain Lloegr sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'r rhai sy'n bwriadu mynd i'r rhan fwyaf o gyrchfannau yn Ne Cymru.

**Tabl 10. Dadansoddiad o ranbarth tarddiad yn ôl cyrchfan yng Nghymru yn 2022, Canran, 3 Uchaf fesul rhanbarth wedi'u tanlinellu**


| | Mynyddoedd ac Arfordir Eryri | Sir Benfro | Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog | Llandudno a Bae Colwyn | Ynys Môn | Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria | Bae Abertawe, y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Chwm Nedd | Caerdydd | Gogledd Ddwyrain Cymru | Sir Gaerfyrddin | Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | Cymoedd De Cymru | Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Orllewin | **22%** | **13%** | **29%** | **13%** | **29%** | **14%** | **12%** | 9% | 13% | 10% | **24%** | 8% | **11%** |
| Gorllewin y Canolbarth | **17%** | **16%** | **16%** | **18%** | **17%** | **17%** | **12%** | 13% | **15%** | **13%** | **11%** | **14%** | 10% |
| De Ddwyrain | **11%** | **14%** | **9%** | **15%** | 9% | **13%** | **15%** | **17%** | **15%** | **18%** | **10%** | **18%** | **16%** |
| De Orllewin | 8% | **14%** | 6% | 12% | 5% | 11% | **14%** | **15%** | **17%** | **13%** | 4% | **13%** | **14%** |
| Llundain | 9% | 9% | 7% | 10% | 6% | 9% | 11% | **15%** | 9% | **13%** | 9% | **13%** | **11%** |
| Dwyrain y Canolbarth | 8% | 8% | **8%** | 7% | 8% | 8% | 7% | 8% | 7% | 5% | 8% | 8% | 9% |
| Swydd Efrog ac Ardal Afon Humber | 8% | 6% | 9% | 5% | **10%** | 8% | 5% | 4% | 5% | 5% | **10%** | 4% | 6% |
| Dwyrain Lloegr | 5% | 7% | 4% | 8% | 3% | 6% | 7% | 6% | 8% | 8% | 6% | 9% | 8% |
| Cymru | 4% | 6% | 4% | 5% | 3% | 7% | 7% | 5% | 5% | 5% | 5% | 5% | 4% |
| Yr Alban | 3% | 3% | 3% | 3% | 3% | 3% | 4% | 4% | 4% | 4% | 5% | 5% | 5% |
| Iwerddon/GI | 2% | 2% | 3% | 1% | 3% | 1% | 2% | 2% | 2% | 4% | 4% | 2% | 4% |
| Gogledd Ddwyrain | 2% | 2% | 3% | 3% | 2% | 2% | 4% | 2% | 1% | 1% | 4% | 2% | 3% |

Sylfaen: Eryri n=1,724; Sir Benfro n=919; Canolbarth Cymru n=539; Llandudno a Bae Colwyn n=503; Ynys Môn n=405; Ceredigion n=292; Bae Abertawe.. n=575; Caerdydd n=517; Gogledd-ddwyrain Cymru n=359; Sir Gaerfyrddin n=146; Dyffryn Gwy n=320; Cymoedd De Cymru n=93; Arfordir Treftadaeth Morgannwg n=320

# Math o lety ar gyfer y trip arfaethedig i Gymru yn 2022

- Yn debyg i dripiau a gymerwyd yn 2021, gwersylla neu garafán yw'r math o lety mwyaf blaenllaw ar gyfer tripiau arfaethedig i Gymru yn 2022 (dylanwadir ar hyn gan ymatebion 'fan gwersylla/cartref modur' a 'charafán sefydlog – nad ydych chi'n berchen arni'), ac yna 'eiddo ar rent neu randy â gwasanaeth'.

**Ffigur 69. Math o gyrchfan ar gyfer trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran**





F9. Pa fath(au) o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch yn aros ynddynt yn ystod eich gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 n=3,154

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Math o lety ar gyfer y trip arfaethedig i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- Hefyd yn gyson â theithiau a gymerwyd yn 2021, mae amrywiad sylweddol yn y dewis o lety yn ôl segmentau Croeso Cymru. Mae 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' yn fwyaf tebygol o ragweld y byddant aros mewn gwesty, tra bod 'teuluoedd ar gyllideb', 'pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' a 'chyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' yn fwyaf tebygol o ddewis 'gwersylla neu garafán'. Yn yr un modd â thripiau a gymerir, mae ffafriaeth uchel 'teuluoedd ar gyllideb' ar gyfer 'gwersylla neu garafán' yn cael ei ysgogi gan fwriad i aros mewn 'carafán sefydlog – nad yw'n eiddo i chi' neu babell. Ar y llaw arall, yn achos 'cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' a 'phobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu', 'fan gwersylla/cartref modur' sy'n ysgogi hynny.

**Ffigur 70. Math o gyrchfan ar gyfer trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





F9. Pa fath(au) o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch yn aros ynddynt yn ystod eich gwyliau byr neu wyliaunesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=777; Cyplau sy'n chwilio am antur a diwylliant n=1294; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=541; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=145

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Gweithgareddau arfaethedig yn ystod y trip arfaethedig i Gymru yn 2022

- ‘Ymweld â safleoedd treftadaeth’, ‘rhoi cynnig ar fwyd a diodydd lleol’ a ‘cherdded, heicio neu grwydro’ yw’r tri gweithgaredd y mae bwriadwyr tripiau i Gymru yn 2022 yn fwyaf tebygol o’u gwneud yn ystod eu trip i Gymru. Mae diddordeb hefyd mewn amrywiaeth o weithgareddau eraill, yn arbennig ‘archwilio ardaloedd golygfaol mewn car’, ‘ymweld ag atyniadau diwylliannol’, ‘dysgu am hanes a diwylliant lleol’ a ‘phrofiadau o natur a bywyd gwyllt’.

**Ffigur 71. Gweithgareddau arfaethedig yn ystod y trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran**





F7. Pa rai, os o gwbl, o’r gweithgareddau hyn y byddech chi’n ystyried eu gwneud o ddifrif ar eich gwyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 n=3,154

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithgareddau arfaethedig yn ystod y trip arfaethedig i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- Nid yw'n syndod bod amrywiaeth sylweddol yn y gweithgareddau a ragwelir yn ystod trip i Gymru fesul segment – 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' sydd fwyaf tebygol o ymweld â safleoedd treftadaeth/atyniadau diwylliannol a dysgu am hanes a diwylliant lleol; segmentau teuluoedd sydd fwyaf tebygol o ymweld ag atyniadau i deuluoedd; mae 'cyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol', 'pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu' a 'theuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur' yn mynegio'n uchel yn achos 'cerdded, heicio neu grwydro'.

**Ffigur 72. Gweithgareddau arfaethedig yn ystod y trip arfaethedig i Gymru yn 2022, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**





F7. Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn y byddech chi'n ystyried eu gwneud o ddifrif ar eich gwyliau byr nesaf yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=777; Cyplau sy'n chwilio am antur a diwylliant n=1294; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=541; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=145

# Diddordeb mewn mynychu gwyliau yn ystod trip i Gymru yn 2022

- O'r mathau o wyliau a digwyddiadau a brofwyd, 'cynnyrch lleol/celf/crefft', 'bwyd a diod' a digwyddiadau 'amaethyddol/cefn gwlad/gardd' a ddenodd y diddordeb mwyaf gan ymholwyr Croeso Cymru.  'Digwyddiadau cystadleuol' a 'chwaraeon gwylwyr byw' a ddenodd y diddordeb lleiaf.

**Ffigur 73. Diddordeb mewn mynychu gwyliau a digwyddiadau yn ystod trip i Gymru yn 2022, Canran.**





F8. Faint o ddiddordeb fyddai gennych chi, os o gwbl, mewn mynychu'r mathau isod o wyliau neu ddigwyddiadau yn ystod eich gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau i Gymru 2022 n=3,154

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Diddordeb mewn mynychu gwyliau yn ystod trip i Gymru yn 2022 yn ôl segment

- Mae diddordeb mewn digwyddiadau yn gymharol gyson ar draws segmentau, gyda rhai gwahaniaethau nodedig. Yn fwyaf nodedig, mae 'cyplau hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant' a 'chyplau sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol' gryn dipyn yn llai tebygol o fod â diddordeb mewn digwyddiadau sy'n cynnwys cerddoriaeth fyw, comedi, gweithgareddau neu chwaraeon.

**Figure 74. Diddordeb mewn mynychu gwyliau a digwyddiadau yn ystod trip i Gymru yn 2022, Canran net y diddordeb**




F8. Faint o ddiddordeb fyddai gennych chi, os o gwbl, mewn mynychu'r mathau isod o wyliau neu ddigwyddiadau yn ystod eich gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=777; Cyplau sy'n chwilio am antur a diwylliant n=1294; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=541; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur  n=145

Llywodraeth Cymru Welsh Government


# Rhwystrau rhag ymweld â Chymru yn 2022



# Rhesymau dros beidio bwriadu ymweld â Chymru yn 2022

- Nid oes unrhyw reswm amlwg pam nad yw sawl sydd ddim yn bwriadu cymryd trip i Gymru yn ystyried Cymru ar gyfer trip yn 2022.  Fodd bynnag, mae'n werth nodi, y tu hwnt i resymau personol, bod pryderon ynghylch dal COVID-19 yn parhau i fod yn rhwystr, fel y mae cyfyngiadau posibl gan y llywodraeth. Yn achos 1 mewn 7, mae'r ffaith eu bod wedi bod o'r blaen ac yn dymuno rhoi cynnig ar rywle arall yn rhwystr.

**Ffigur 75. Rheswm dros beidio bwriadu ymweld â Chymru ar gyfer trip dros nos yn 2022, Canran.**





F10. Beth yw'r rhesymau pam na nad ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2022?
Sylfaen: Pobl sydd ddim yn bwriadu cymryd trip yn 2022 n=1,063

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhesymau dros beidio bwriadu ymweld â Chymru yn 2022 yn ôl segment

- Pryderon ynghylch COVID a chyfyngiadau'r llywodraeth yw'r rhwystr pennaf i segmentau 'nad ydynt yn deuluoedd'.

**Ffigur 76. Rheswm dros beidio bwriadu ymweld â Chymru ar gyfer trip dros nos yn 2022, Canran, yn ôl segmentau Croeso Cymru**




F10. Beth yw'r rhesymau pam na nad ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2022?
Sylfaen: Pobl hŷn sy'n chwilio am antur a diwylliant n=296; Cyplau sy'n chwilio am antur a diwylliant n=323; Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu n=136; Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur n=42

# Gwerthusiad o’r deunyddiau marchnata




BVA BDRC

# Ymgysylltu â deunydd marchnata a chyfathrebiadau Croeso Cymru

- Efallai nad yw'n syndod, o ystyried y dull recriwtio ar gyfer yr ymchwil hwn, mai e-gylchlythyrau Croeso Cymru oedd y sianel gyfathrebu yr oedd ymholwyr yn fwyaf tebygol o fod wedi ymgysylltu â hi yn 2021, ac yna gwefan Croeso Cymru. Roedd 3 o bob 10 ymholwr wedi ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru, wedi'u hysgogi gan nifer ymatebion 'hoffi'/dilynwyr eu tudalen Facebook.

**Ffigur 77. Ymgysylltu â deunyddiau marchnata a chyfathrebiadau Croeso Cymru, Canran.**




E1a. Gan feddwl am yr holl gyswllt a gawsoch gyda Croeso Cymru yn 2021, pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522



Llywodraeth Cymru Welsh Government


# Crynodeb o’r deunyddiau marchnata a brofwyd

## Ffilmiau a brofwyd


Ffilm 1



Ffilm 2



## Marchnata digidol a brofwyd





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC

# Cofio deunyddiau marchnata Croeso Cymru

- Ar y cyfan, roedd 1 o bob 7 (14%) o ymholwyr Croeso Cymru yn bendant wedi gweld naill ai hysbyseb teledu neu hysbyseb ddigidol yn ystod y 3 mis blaenorol, gan godi i bron i hanner (46%) yn achos y rhain oedd yn bendant neu o bosibl wedi ei gweld.
- Roedd y gyfradd gofio yn uchaf yn achos hysbyseb teledu Croeso Cymru – yn enwedig 'Ffilm 1' (gweler y dudalen flaenorol) – roedd 32% yn bendant wedi'i gweld neu wedi'i gweld o bosibl, o'i gymharu â 18% wedi gweld 'Ffilm 2' neu wedi'i gweld o bosibl.
- Mae tua 3 o bob 10 (31%) yn cofio gweld hysbyseb ddigidol yn bendant/o bosibl, gan godi i bron i hanner (49%) yr ymholwyr sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru.

**Ffigur 78. Cofio deunydd marchnata Croeso Cymru, Canran, yn ôl pob ymholwr,**




E2. A ydych chi'n cofio gweld yr hysbyseb teledu hon neu rywbeth tebyg iawn yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf? E3. A ydych chi'n cofio gweld yr hysbysebion digidol hyn neu rywbeth tebyg iawn yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522; Wedi gweld ffilm 1 n=c.2,250; Wedi gweld ffilm 2 2 n=c.2,250; wedi ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru n=1,379


Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Canfyddiadau o ddeunyddiau marchnata Croeso Cymru

- Mae mwyafrif cryf o ymholwyr Croeso Cymru yn cytuno bod marchnata ‘allfrig’ Croeso Cymru yn ‘cyfleu Cymru yn gadarnhaol iawn’ (76% yn cytuno’n gryf/tueddu i gytuno) ac yn ‘gwneud i Gymru edrych yn apelgar iawn am wyliau neu wyliau byr yn yr ardal yn yr hydref/gaeaf’ (74%).  Mae mwyafrif hefyd yn cytuno y ‘bydd yn gwneud pobl yn fwy tebygol o ystyried Cymru ar gyfer gwyliau neu wyliau byr’ (56%) er bod 1 o bob chwech (16%) yn anghytuno â hyn.  Roedd y farn yn ranedig o ran pa un ai a yw’r hysbysebion yn dangos Cymru ‘mewn ffordd nad ydych yn ei gweld fel arfer’.

**Ffigur 79.  Canfyddiadau o ddeunyddiau marchnata Croeso Cymru, Canran, yn ôl pob ymholwr**





E4. Nawr wrth feddwl am y ffilmiau a'r hysbysebion rydyn ni newydd eu dangos i chi fel un ymgyrch farchnata gyfan, sut fyddech chi'n eu disgrifio?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru Welsh Government


# Effaith ymhlyg deunyddiau marchnata Croeso Cymru

- Ar lefel ymhlyg, mae arwyddion y gallai marchnata yn ystod y cyfnod allfrig fod wedi dylanwadu ar fwriad – mae'r rhai sy'n *bendant* yn cofio ei weld yn fwy tebygol o ystyried Cymru ar gyfer trip allfrig, ac ychydig yn llai tebygol o ddyfynnu 'tywydd Cymru' fel rhwystr rhag ymweld yn 2022 (er nad yw'r gwahaniaeth olaf yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol).

**Ffigur 80. Tebygolrwydd o gymryd trip allfrig i Gymru yn y dyfodol, yn ôl cofio deunyddiau marchnata Croeso Cymru**




**Ffigur 81. Cyfran sy'n dyfynnu amodau tywydd fel rhwystr i ymweld â Chymru, yn ôl cofio deunyddiau marchnata Croeso Cymru**






F3b. Gwnaethoch nodi nad ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn 2022. Pa mor debygol fyddech chi o ystyried gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn y dyfodol? F10. Beth yw'r rhesymau pam na nad ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2022?
Sylfaen: Ffigur 74: Wedi gweld y marchnata yn bendant n=353; Heb weld y marchnata yn bendant 2,607; Ffigur 75: Wedi gweld y marchnata yn bendant n=85; Heb weld y marchnata yn bendant 978;

# Cofio addewid ‘Addo’ Croeso Cymru

- Mae tua 1 o bob 9 (11%) o ymholwyr Croeso Cymru yn cofio gweld addewid ‘Addo’ Croeso Cymru yn y 12 mis blaenorol, ac mae hynny’n uwch ymhlith y rhai a aeth i wefan Croeso Cymru ac sy’n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru.

**Ffigur 82. Cofio addewid ADDO, Canran, yn ôl pob ymholwr ac ymgysylltiad â gwybodaeth Croeso Cymru**




E6. A ydych chi wedi clywed neu weld unrhyw wybodaeth am addewid ‘Addo’ Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
BVA BDRC


# Deall Agweddau at Gynaliadwyedd



# Dadansoddiad o segmentau cynaliadwyedd BVA BDRC

- O gymharu â phoblogaeth y DU, mae ymholwyr Croeso Cymru yn mynegeio yn llawer uwch ar segmentau cynaliadwyedd ‘Eco-Efengylwyr’ a ‘Bwriadau Da’ BVA BDRC. Maent hefyd yn mynegeio cryn dipyn yn is yn y segmentau ‘Hedonyddion Cyfoethog’ a ‘Amheuwyr y Newid yn yr Hinsawdd’. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu bod ymholwyr Croeso Cymru yn rhoi lefel uchel o bwysigrwydd i gynaliadwyedd.

**Ffigur 83. Dadansoddiad o ymholwyr Croeso Cymru yn ôl segmentau cynaliadwyedd BVA BDRC**





Cwestiynau segmentau cynaliadwyedd BVA BDRC
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu

- O blith yr ystod o opsiynau a gynigiwyd, mae Ymholwyr Croeso Cymru yn fwyaf tebygol o ddatgan y dylai busnesau twristiaeth flaenoriaethu ‘lleihad sylweddol mewn plastig untro’, a ‘chyfleoedd i gwsmeriaid ailgylchu/lleihau gwastraff’.
- Roedd gweithgarwch lleol hefyd yn amlwg - 'cefnogi'r ardal leol yn rhagweithiol', 'ymrwymiad i gyrchu a phrynu cynnyrch yn lleol', 'ymrwymiad i recriwtio staff o'r ardal leol', a 'hyrwyddo dealltwriaeth o hanes a diwylliant yr ardal leol' oedd gweddill y chwe cham gweithredu pwysicaf.

**Ffigur 84. Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu, Canran, 11 uchaf**





G7. Pa 3-4 o’r camau gweithredu canlynol ydych chi’n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd er mwyn dod yn fwy cynaliadwy? G8. A pha 3-4 o’r camau gweithredu canlynol ydych chi’n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd er mwyn dod yn fwy cynaliadwy? n=4,522

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu

- ‘Cyflogi pobl o gefndiroedd gwahanol’ a ‘chyflogi tywyswyr teithiau lleol’ oedd y camau gweithredu cynaliadwy y mae ymholwyr yn meddwl sydd leiaf pwysig i’w blaenoriaethu.

**Ffigur 85. Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu, Canran, 11 isaf**




G7. Pa 3-4 o’r camau gweithredu canlynol ydych chi’n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd er mwyn dod yn fwy cynaliadwy?
G8. A pha 3-4 o’r camau gweithredu canlynol ydych chi’n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd er mwyn dod yn fwy cynaliadwy? Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Agweddau at gamau gweithredu cynaliadwy unigol yn ystod tripiau yn y wlad hon

- O ran camau gweithredu cynaliadwy ar gyfer yr unigolyn, mae ymholwyr Croeso Cymru yn fwyaf tebygol o fod 'yn barod i yn ystyried o ddifrif os nad oes cost ychwanegol' 'blaenoriaethu prynu bwyd gan gynhyrchwyr lleol', 'teithio y tu allan i oriau brig yn lle'r tymor brig' a ' ymweld ag ardaloedd llai poblogaidd neu lai prysur', neu maent eisoes yn ystyried hynny.  Mae parodrwydd i deithio yn y cyfnod allfrig yn gysylltiedig â chyfran isel y teuluoedd yn y sampl.

**Ffigur 86. Agwedd at gamau gweithredu cynaliadwy unigol, Canran, yn ôl bob ymholwr, 8 uchaf**





G9a. Pa mor debygol fyddech chi o wneud yr 'ymddygiadau cynaliadwy' canlynol ar eich gwyliau byr a'ch gwyliau yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Agweddau at gamau gweithredu cynaliadwy unigol yn ystod tripiau yn y wlad hon

- Mae ymholwyr Croeso Cymru yn lleiaf tebygol o fod yn fodlon ‘teithio i/o gwmpas eu cyrchfan mewn car trydan’. Mae prinder parodrwydd hefyd i ‘gymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth/gwirfoddol’ ac i ‘aros mewn llety ecogyfeillgar yn unig’ os yw’n anghyfleus/os oes cost ychwanegol.

## Ffigur 87. Agwedd at gamau gweithredu cynaliadwy unigol, Canran, yn ôl bob ymholwr, 8 isaf




G9a. Pa mor debygol fyddech chi o wneud yr ‘ymddygiadau cynaliadwy’ canlynol ar eich gwyliau byr a’ch gwyliau yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=4,522

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Atodiad



# Arwyddocâd Ystadegol

Mae'r tabl isod yn amlinellu dibynadwyedd ystadegol yr ymatebion i'r arolwg.  Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddir yn hollgynhwysfawr ond maent wedi'u dewis i ddynodi hyder amrywiol mewn ystod o wahanol feintiau samplau.

| | Casgliad arolwg o… | | |
|---|---|---|---|
| **Sylfaen** | **5 / 95%** | **20 / 80%** | **50 / 50%** |
| Cyfanswm y Sampl (4,522) | +/- 0.6% | +/- 1.2% | +/- 1.5% |
| Ymwelwyr â Chymru yn 2021 (2,264) | +/- 0.9% | +/- 1.6% | +/- 2.1% |
| Ymwelwyr â Chymru yn 2021 o'r segment Cyplau Hŷn sy'n Chwilio am Antur a Diwylliant (452) | +/- 2.0% | +/- 3.7% | +/- 4.6% |
| Ymwelwyr â Chymru yn 2021 i Gaerdydd (157) | +/- 3.4% | +/- 6.3% | +/- 7.8% |
| Ymwelwyr â Chymru yn 2021 i Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg (63) | +/- 5.4% | +/- 9.9% | +/- 12.3% |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC